Ministry of Justice

# Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Mai 2019

CP 93

Ministry of Justice

# Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mai 2019

CP 93

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn strengthening.probation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-1307-1

CCS0519149012 05/19

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi’i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan Grŵp APS ar ran Reolydd Llyfrfa EI Mawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair** **3**

**Cyflwyniad a manylion cyswllt** **6**

**Crynodeb Gweithredol** **7**

**Ein dull gweithredu yn y dyfodol** **16**

Crynodeb 16

Goruchwylio troseddwyr a rhoi dedfryd y llys ar waith 19

Datblygu marchnad gymysg gynaliadwy 22

Rôl gliriach i'r sector gwirfoddol a darparwyr llai 24

Gwella'r cyflawni strategol a gwaith partneriaeth lleol 27

System brawf sy'n gweithio i Gymru 32

Gweithlu sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn 33

Gwella perfformiad 35

**Ymatebion i gwestiynau penodol** **37**

**Casgliad a'r camau nesaf** **51**

**Atodiad A: Rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad** **52**

**Atodiad B: Ystyriaethau cydraddoldeb** **57**

# Rhagair

Mae ein system cyfiawnder troseddol yn gweithio er mwyn ein cadw ni'n fwy diogel drwy leihau lefel troseddau a, thrwy hynny, leihau nifer y dioddefwyr. Mae'n cosbi'r rheini sydd wedi torri'r gyfraith ac yn gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon a chymesur, ac mae'n cefnogi troseddwyr i droi eu cefn ar droseddu. Mae rôl y gwasanaeth prawf yn allweddol i gyflawni hyn, ac mae'n hanfodol bod gennym wasanaeth prawf sefydlog sy'n ennyn hyder y llysoedd a'r cyhoedd fel dewis diogel a dichonadwy yn lle caethiwed.

Mae gan wasanaethau prawf hanes hir o ddarparu'r math priodol o ymyriadau sy'n llwyddo i helpu troseddwyr i weddnewid eu bywydau, lleihau lefelau aildroseddu ac amddiffyn dioddefwyr. Mae dros 250,000 o bobl o dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf ar unrhyw un adeg, ac mae rhai o'r rheini'n cael cefnogaeth mewn caethiwed a'r rhan fwyaf yn cael eu monitro yn y gymuned. Rwyf wedi sôn am fy uchelgais i gael cyfiawnder clyfar, sy'n golygu edrych y tu hwnt i'r carchar a'r dedfrydau tymor byr dan glo sy'n aneffeithiol, fel bod modd i ni edrych yn hytrach ar y mathau o ddewisiadau eraill yn y gymuned sy'n well o ran cefnogi troseddwyr i droi eu cefnau ar droseddu am byth.

Mae llawer o'r hyn rydym ni'n ei wneud ar hyn o bryd yn dda, ac mae’r cyfraddau aildroseddu cyffredinol yn disgyn, ond mae'n amlwg nad yw system gyfan y gwasanaeth prawf wedi bod yn gweithio fel y dylai. Mae'r newidiadau a wnaed drwy ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu wedi gwneud llawer i ddwyn buddion gan y darparwyr preifat a’r darparwyr gwirfoddol. Ond, mae heriau wedi codi o ran y swyddogaethau cymhleth sy'n cael eu cyflawni gan wasanaethau prawf mewn contractau. Nid ydym wedi gwireddu ein huchelgais ychwaith i weld y sector gwirfoddol yn un o brif ddarparwyr y gwasanaethau prawf. Ar ben hynny, mae gormod o achosion lle nad yw troseddwyr yn cael eu gweld yn ddigon rheolaidd neu'n cael eu gweld gan yr un swyddog prawf.

Rydym wedi cymryd camau pwysig lle bo angen, er enghraifft, yn ystod yr haf y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau i ddod â chontractau presennol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ben yn gynnar. Wrth adolygu'r system gyfan, rydym hefyd wedi edrych yn ofalus ar yr hyn sydd angen gwella, yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio.

Mae ein newidiadau wedi cael eu dylunio i wneud i’r system weithio mor effeithiol â phosibl nawr ei bod yn delio â 40,000 o garcharorion sydd wedi cael dedfryd fer nad oeddent yn cael dim cefnogaeth cyn cyflwyno Trawsnewid Adsefydlu. Yn y cyfodol, bydd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (rhan o HMPPS sy’n un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder) gyfrifoldeb dros reoli’r holl droseddwyr sydd ar orchymyn cymunedol neu drwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r carchar.

Fodd bynnag, dangosodd Trawsnewid Adsefydlu fod gwaith partneriaeth go iawn rhwng y sector preifat a chyhoeddus yn gallu rhoi hwb i arloesedd. Mae arnom eisiau parhau i ddefnyddio arbenigedd ac arloesedd y sectorau gwirfoddol a phreifat, drwy ddarparu ymyriadau – fel Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achredededig ac ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu ehangach, gyda'r disgwyliad clir y bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn prynu'r gwasanaethau hyn o'r farchnad. Bydd pob rhanbarth NPS yn parhau i fod â phartner sector preifat neu wirfoddol – Partner Arloesedd – sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglenni achrededig a gwaith di-dâl yn uniongyrchol, a chefnogi'r NPS i adnabod a darparu arloesedd ehangach. Bydd yn rhaid i'r NPS brynu'r holl ymyriadau o'r farchnad, gan wario amcangyfrif o £280m y flwyddyn. Bydd y contractau'n cael eu dylunio'n hyblyg, er mwyn gallu canfod yn gyflym unrhyw ddulliau gweithredu arloesol sy'n arwain at ganlyniadau, a'u bod yn cael eu lledaenu ar draws y system ehangach.

Bydd y gyfres gliriach hon o gyfrifoldebau yn lleihau unrhyw ddyblygu ac yn gwella eglurder ac atebolrwydd ac yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o ddarpariaeth ehangach ac yn sicrhau'r arloesedd gall y sectorau preifat a gwirfoddol ei gynnig. Bydd yn adeiladu ar y manteision a ddaw gyda'r gwahanol ddarparwyr hyn, gan gynnwys datblygu rôl well i'r sector gwirfoddol. Bydd y newidiadau hyn yn adeiladu ar gryfderau'r system bresennol, gan gynnwys y gwelliannau yng nghysondeb arferion gwaith prawf craidd a gyflawnir gan yr NPS o'i gymharu â'r sefyllfa a etifeddwyd gan 35 Ymddiriedolaeth Prawf.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn i'r strwythur, rydw i am sicrhau bod gwasanaeth proffesiynol ein staff yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaol drwy'r amser, a bod eu gwaith yn cael ei gydnabod drwy gofrestr statudol annibynnol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes prawf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod hunaniaeth a diwylliant cyffredin ymysg holl aelodau'r staff a fydd yn rhan o'r NPS yn y dyfodol.

Bydd heriau'n codi wrth gyflwyno rhagor o newidiadau i'r system brawf, gan gynnwys pethau a fydd yn tarfu ar y staff. Ond, nod y strategaeth hon yw sicrhau bod gennym y model priodol ar gyfer y tymor hir. Mae'n bwysig ein bod yn llwyddo gyda hyn, ac mae'n hanfodol ein bod yn cymryd yr amser i roi'r newid hwn ar waith yn effeithiol. Byddwn yn gweithio'n agos â'r staff a'r darparwyr presennol i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer newid i'r model yn y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i'r rheini sydd wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad hwn. Rwy'n ffyddiog wrth gydweithio ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol y bydd gweithredu'r model newydd hwn yn helpu i gynnig ffordd fwy sefydlog a chynaliadwy o ddarparu gwasanaethau prawf yn y dyfodol. Bydd hyn yn adeiladu ar elfennau cadarnhaol y system bresennol ond hefyd yn mynd ati i newid mewn ffordd a fydd yn helpu i wireddu potensial dedfrydau cymunedol a phrawf i adsefydlu troseddwyr, lleihau lefelau aildroseddu ac, yn y pen draw, lleihau nifer y dioddefwyr troseddau yn y dyfodol.



**Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS**

**Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Adroddiad ar ôl yr ymgynghoriad ar gyfer y papur ymgynghori, Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder, yw'r ddogfen hon.

Bydd yn cynnwys:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad a manylion ein dull gweithredu diwygiedig
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad
- y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

Mae rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori ar gael drwy gysylltu â'r **Probation Programme** yn y cyfeiriad isod:

**Probation Programme**
**Ministry of Justice**
**102 Petty France**
**Llundain SW1H 9AJ**

**E-bost:** strengthening.probation@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/

Mae modd gofyn am fersiynau fformat gwahanol o'r cyhoeddiad hwn gan strengthening.probation@justice.gov.uk.

### Cwynion neu sylwadau

Os bydd gennych unrhyw gwynion eu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Cafodd yr Asesiad Effaith sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn ei ddiweddaru er mwyn ystyried y dystiolaeth a roddwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd yr Asesiad Effaith sydd wedi'i ddiweddaru ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/strengthening-probation-building-confidence

Mae papur ymatebion Cymraeg ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/strengthening-probation-building-confidence

Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad A.

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

1. Cafodd y papur ymgynghori 'Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder' ei gyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2018[1]. Ynddo, cyhoeddwyd y penderfyniad i ddod â chontractau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ben yn gynnar a rhoi trefniadau newydd ar waith erbyn diwedd 2020. Roedd yn manylu ar ein cynlluniau i greu strwythur rhanbarthol diwygiedig ar gyfer y gwasanaeth prawf, gan sefydlu rhanbarthau cydffiniol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a darpariaeth dan gontract, gydag un arweinydd yn atebol dros y gwasanaeth prawf ym mhob rhanbarth. Hefyd, roedd yn nodi ein huchelgais i symud i system fwy integredig, gyda safonau darparu cliriach ac i weithio mewn partneriaeth yn well. Fe wnaethom ofyn am farn am y ffordd orau o wneud hyn.

2. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 21 Medi 2018. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r prif randdeiliaid a'r farchnad ar ôl hynny er mwyn gwella ein cynigion. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn nodi sut mae'r broses ymgynghori ac unrhyw ymgysylltu wedyn wedi dylanwadu ar y gwaith pellach o ddatblygu ein cynigion.

## Ein cynigion

3. Rhwng 2001 a 2010, cafodd gwasanaethau prawf eu darparu mewn 42 o ardaloedd prawf ledled Cymru a Lloegr. Ar ôl gweithredu Deddf Rheoli Troseddwyr 20017 cafodd byrddau prawf eu disodli yn 2010 gan 35 o Ymddiriedolaethau Prawf a oedd yn llywodraethu eu hunain. O dan y model hwn, roedd y cyfraddau aildroseddu yn dal yn uchel heb ostwng dim. Roedd y rheini a oedd yn feirniadol o'r model o'r farn ei fod yn aneffeithiol a ddim yn dryloyw, ac roedd heriau'n codi drwy'r amser o ran cyrraedd targedau i ddefnyddio'r arbenigedd a oedd ar gael gan ddarparwyr gwirfoddol a darparwyr arbenigol.

4. Roedd y diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu yn 2014 yn cyflwyno marchnad ehangach o ddarparwyr sector preifat a sector gwirfoddol[2] i ddarparu gwasanaethau prawf gyda'r NPS. Roedd y diwygiadau hyn yn ceisio sicrhau bod arbenigedd y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf. Yn y model hwn, mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y CRCau a'r NPS, gyda'r CRCau yn rheoli troseddwyr risg isel a chanolig, a'r NPS yn

[1] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder, Gorffennaf 2018 - https://consult.justice.gov.uk/hm-prisons-and-probation/strengthening-probation-building-confidence/supporting_documents/strengtheningprobationbuildingconfidence.pdf

2 Yn y ddogfen hon drwyddi draw, mae cyfeiriadau at y sector gwirfoddol yn golygu'r sector mentrau cymdeithasol, cymunedol a gwirfoddol ehangach (VSCE).

rheoli troseddwyr risg uwch. Mae CRCau yn darparu ymyriadau hefyd, fel Gwaith Di-dâl, i droseddwyr drwy'r system gwasanaeth prawf. Wrth wneud hyn, agorodd y diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu y farchnad i ystod ehangach o ddarparwyr i annog arloesedd, cyflwyno arbenigedd a ffyrdd mwy modern o weithio. Drwy gyflwyno dull talu yn ôl perfformiad a chanlyniadau, nod y diwygiadau oedd creu cymhellion newydd i ddarparwyr er mwyn iddynt ganolbwyntio ar leihau lefelau aildroseddu a helpu i fynd i'r afael â'r gyfradd aildroseddu. Hefyd, aethom ati i gynnig mwy o gefnogaeth ar gyfer ailsefydlu a goruchwyliaeth statudol i bob troseddwr sy'n cael ei ryddhau o'r carchar gan gynnwys y rheini sydd â dedfrydau o lai na 12 mis, cohort rydym ni'n gwybod eu bod â lefel aildroseddu uchel. Cafodd y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth estynedig ei chynnig i 40,000 yn fwy o droseddwyr am y tro cyntaf.

5. Yn ystod yr haf y llynedd, fe aethom ati i osod ein cynigion ar gyfer cam nesaf y gwasanaeth prawf, a'n cynlluniau i fynd i'r afael â pherfformiad yn y system bresennol. Fe wnaethom gymryd camau i wella goruchwyliaeth a chefnogaeth drwy'r-giât (sydd hefyd yn cael ei alw yn ailsefydlu) am weddill oes y contractau, ac i ddod â chontractau presennol Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ben yn gynnar yn 2020. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom amlinellu ein cynigion ar gyfer newidiadau strwythurol yn y dyfodol y byddem yn eu defnyddio i sicrhau cysondeb rhwng yr NPS a'r ddarpariaeth dan gontract yn ardaloedd prawf Lloegr, a chyflwyno fframwaith hyfforddi safonol i staff ar draws pob darparwr gwasanaeth prawf. Hefyd, aethom ati i ymgynghori ynghylch cyflwyno trefniadau darparu newydd yng Nghymru a fyddai'n golygu bod yr NPS yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau rheoli troseddwyr, gyda throseddwyr risg isel, canolig ac uchel.

6. Ers yr ymgynghoriad, rydym wedi ystyried ein dull gweithredu'n ofalus a sut mae datblygu'r manteision a gyflwynwyd drwy ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu. Rydym wedi gwrando ar yr adborth yn yr ymgynghoriad yn ogystal â'r adborth ehangach gan randdeiliaid a'r dadansoddiad o berfformiad y system. Wrth i ni weithredu yn y dyfodol, ein bwriad yw y bydd yr NPS yn gyfrifol am yr holl wasanaethau rheoli troseddwyr - ar gyfer troseddwyr risg isel, canolig ac uchel[3]. Bydd hyn yn golygu bod y model a nodwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer Cymru nawr yn cael ei addasu ar draws Lloegr hefyd.

7. Mae sefydliadau preifat a sefydliadau gwirfoddol wedi dangos eu bod yn gallu darparu ymyriadau yn dda. Byddwn yn dal gafael ac yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy gael yr holl wasanaethau allweddol, fel Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, ac ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu eraill gan y marchnadoedd sector preifat a gwirfoddol, gyda rôl i'r farchnad i gefnogi'r NPS i adnabod a darparu arloesedd ehangach. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy greu cystadlaethau i gyflenwyr ar gyfer Gwaith Di-dâl a Rhaglenni Achrededig, a drwy greu fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu[4]. Bydd y contractau'n cael eu dylunio'n

3 goruchwylio troseddwyr sydd â dedfryd gymunedol, neu wedi'u rhyddhau o'r carchar

4 Yn y model presennol, mae'r NPS yn darparu rhai o'r Rhaglenni Achrededig, gan gynnwys y rheini sy'n mynd i'r afael â throseddau rhyw. Rydym yn cynnig y dylai'r NPS barhau i ddarparu'r rhaglenni hyn yn y dyfodol.

hyblyg, er mwyn gallu canfod yn gyflym ddulliau gweithredu arloesol sy’n arwain at ganlyniadau a’u lledaenu ar draws y system ehangach.

8. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, ein bwriad ydy cael 11 rhanbarth prawf ar draws Cymru a Lloegr. Yn Lloegr, bydd pob un o’r rhanbarthau NPS yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a fydd yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn gyfrifol am ddarparu a chomisiynu gwasanaethau prawf. Yng Nghymru, mae Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS yng Nghymru eisoes yn gyfrifol am yr holl wasanaethau prawf a charchardai yng Nghymru ac ni fydd hyn yn newid. Byddwn yn buddsoddi yng ngallu a chapasiti comisiynu’r Gwasanaeth Prawf drwy ddylunio strwythurau prawf rhanbarthol newydd, gan ddefnyddio’r sgiliau a’r profiad sydd wedi cael eu datblygu yn y CRCau.

9. Bydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol hyn yn cynnig un llais ar gyfer y gwasanaeth prawf ym mhob rhanbarth, a byddant yn gyfrifol am gryfhau unrhyw waith partneriaeth ac ymgysylltu, gan gynnwys gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCau), awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd. Byddwn yn ceisio llunio trefniadau lleol sy’n rhoi rôl uniongyrchol i gyfiawnder troseddol a phartneriaid lleol yn y gwaith o gomisiynu gwasanaethau gyda’r NPS. Rydym yn bwriadu gwneud mwy na'r hyn rydym wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad, ac rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i roi fframwaith rheoleiddio proffesiynol statudol ar waith ar draws y system gwasanaeth prawf gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu. Byddwn yn parhau i feddwl yn ofalus am y cynigion hyn.

10. Byddwn yn mynd ati'n awr i ymgysylltu am gyfnod gyda'r farchnad a'r rhanddeiliaid i gwblhau ein cynigion, gan gynnwys sut bydd gwasanaethau'n cael eu pecynnu mewn cystadlaethau, ac i nodi rhagor o fanylion am gynllun gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd hi'n bwysig bod y broses o symud i'r model newydd yn gywir, a byddwn yn ymgysylltu â staff i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer y newid hwn. Yn amodol ar ein hymgysylltiad pellach â'r farchnad a'r broses gymeradwyo a’r profion fforddiadwyedd ar draws y Llywodraeth, byddwn yn mynd ati wedyn i lansio'r prosesau cystadlu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer Gwaith Di-dâl a'r Rhaglenni Achrededig a'r fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

11. Cawson gyfanswm o 476 o ymatebion i'r papur ymgynghori ‘Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder’. Daeth yr ymatebion hyn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys staff y gwasanaeth prawf, Undebau Llafur, dedfrydwyr, dioddefwyr, troseddwyr, academyddion, elusennau, PCCau, awdurdodau lleol a darparwyr posib y gwasanaethau prawf yn y dyfodol, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr.

12. Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd gweithwyr proffesiynol ym maes prawf, gan gyfrannu 44% o'r ymatebion. Cafwyd cryn ymateb i'r ymgynghoriad hefyd gan

sefydliadau o'r sector gwirfoddol, a nodwyd bod 17% o'r ymatebwyr yn gweithio yn y sector gwirfoddol. Barnwyr ac ynadon oedd 8% o'r ymatebwyr. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad A.

13. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gafwyd. Rydym wedi edrych ar ymatebion yn ôl math o ymatebydd ac yn ôl y cwestiwn unigol, ac rydym wedi llwyddo i nodi themâu trawsbynciol a oedd yn gyffredin ar draws sawl cwestiwn a grŵp rhanddeiliaid. Mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion i bob cwestiwn ar gael yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

14. Ni wnaethom ymgynghori'n uniongyrchol ynghylch rhannu'r swyddogaethau rhwng yr NPS a'r CRCau, ond dywedodd cyfran sylweddol, oddeutu 40%, o'r holl ymatebwyr yn eu hatebion y byddai'n well ganddynt weld swyddogaethau rheoli troseddwyr yn cael eu hintegreiddio dan yr NPS. Roedd cryn gefnogaeth i'r model darparu a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer Cymru.

15. Rhoddodd llawer o ymatebwyr bwys ar bwysigrwydd cydweithrediad gwell rhwng partneriaid, ac roedd hwn yn bwynt a gafodd ei gyflwyno o leiaf unwaith gan dros 60% o'r ymatebwyr. Roedd sylwadau ar y thema hon yn cynnwys datblygu cysylltiadau cryfach ar bob lefel rhwng yr NPS a'r ddarpariaeth dan gontract; rhwng carchardai a gwasanaethau prawf wrth ddarparu gwasanaethau ailsefydlu; rhwng y llysoedd a'r darparwyr i lywio'r broses dedfrydu; a rhwng darparwyr a phartneriaid lleol gan gynnwys PCCau, awdurdodau lleol a sefydliadau sector gwirfoddol. Roedd ein cynnig i gael uwch arweinydd ym mhob rhanbarth a fyddai'n gyfrifol am gydlynu gwasanaethau a gweithio gyda rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth, yn cael ei weld yn gam cadarnhaol tuag at integreiddio'r system.

16. Roedd ymatebwyr o bob grŵp gwahanol yn pwysleisio gwerth cael atebion sydd wedi'u teilwra i ardaloedd lleol. Roedd ymatebwyr yn glir ynghylch potensial gwasanaethau prawf i adlewyrchu amgylchiadau lleol ac i fod wedi'u teilwra'n well er mwyn diwallu anghenion troseddwyr unigol, gan gynnwys y rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu’r rheini sydd ag anabledd. Soniwyd yn aml fod angen i'r sector gwirfoddol, yn enwedig sefydliadau llai, gael rôl gliriach a mwy pendant.

17. Yn yr ymatebion gan staff y gwasanaeth prawf, pwysleisiwyd bod angen gwella'r hyfforddiant i staff. Tynnwyd sylw at hyn mewn ymatebion i fwy nag un cwestiwn, ond roedd yn ymateb cyffredin iawn ac amlwg wrth sôn am wella lleoliadau Gwaith Di-dâl, a sut mae rheoli grwpiau agored i niwed fel menywod.

**Crynodeb o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid**

18. Cafodd rhaglen helaeth o ddigwyddiadau ei chynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posib. Cafodd 35 o ddigwyddiadau eu cynnal gan ymgysylltu ag oddeutu 1,000 o unigolion. Roedd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys tri digwyddiad ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol a drefnwyd

gan Clinks, a chyfres o ddigwyddiadau yng Nghymru i gael adborth am y trefniadau gwahanol a gynigir yno.

19. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, roeddem yn ceisio ymgynghori â phobl sydd â phrofiad ymarferol o'r system cyfiawnder troseddol. Bwriad hyn oedd cael mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad yn awr neu yn y gorffennol (o fewn y 18 mis diwethaf) o fod mewn caethiwed, o oruchwyliaeth gymunedol neu'r ddau. Clywsom gan amrywiaeth o unigolion yn y system carchardai a phrawf – oddeutu 160 i gyd, yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a drwy adborth mewn cyfres o weithdai. Dyma'r prif themâu y tynnwyd sylw atynt: pwysigrwydd perthynas dda â'ch swyddog prawf, gan gynnwys cael yr un swyddog prawf drwy gydol y broses a chadw cysylltiad â'ch swyddog prawf pan fydd rhywun mewn caethiwed; canolbwyntio ar ansawdd y cysylltiad yn hytrach na mynnu bod hyn yn digwydd yn aml; a sicrhau dealltwriaeth glir o amodau trwydded.

20. Wrth i ni ymgysylltu â'r sector gwirfoddol, roedd awydd i weld y sector gwirfoddol yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau arbenigol ond roedd pryder na fyddai'n model a gynigir yn yr ymgynghoriad yn galluogi darparwyr y sector gwirfoddol i gyflawni ar y raddfa ofynnol ac nad oedd y model yn cynnig rôl glir i ddarparwyr arbenigol, llai.

21. Fel rhan o'n hymrwymiad i gyd-ddylunio trefniadau'r gwasanaeth prawf gyda Swyddfa'r Maer er Plismona a Throseddau yn Llundain (MOPAC) a Chyd-Awdurdod Manceinion Fwyaf (GMCA), rydym wedi bod yn ymgysylltu â nhw'n gynnar i brofi ein dyluniad. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r PCCau i weld sut mae cryfhau eu rôl a sicrhau bod y gwasanaethau prawf yn ymateb i anghenion lleol, yn chwarae rhan lawn yn y trefniadau gwaith partneriaeth ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyd-gomisiynu gwasanaethau sy'n lleihau lefelau aildroseddu. Yn ogystal â hyn, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid allanol eraill, gan gynnwys sefydlu fforwm ymgynghorol â chynrychiolwyr Undebau Llafur o NAPO, Unsain a GMB SCOOP.

22. Mae'r broses ymgysylltu hon â'r rhanddeiliaid wedi bod yn werthfawr wrth brofi'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad, ac i lywio datblygiad ein cynigion i'w defnyddio yn y dyfodol.

**Sefydlogi'r ddarpariaeth**

23. Fel sydd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018, fe wnaethom gytuno ar drefniadau contract diwygiedig ar gyfer darparwyr presennol y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn ogystal â buddsoddi £22m arall y flwyddyn fel bod darparwyr yn darparu lefel well o gefnogaeth i droseddwyr sy'n gadael carchar (cyfeirir at hyn fel ailsefydlu neu gefnogaeth drwy'r-giât) yn ystod 2019 a 2020.

24. Daeth y trefniadau contract diwygiedig hyn i rym ar 1 Ebrill 2019 ar draws pob contract Cwmni Adsefydlu Cymunedol yng Nghymru a Lloegr. Eu bwriad yw gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys cefnogaeth well wedi'i theilwra'n fwy personol i'r troseddwyr. Mae oddeutu 500 o staff ychwanegol ar gael erbyn hyn i

ganolbwyntio ar wasanaethau ailsefydlu o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn. Byddwn yn gwerthuso'r gwasanaeth hwn yn ystod y 12 mis nesaf, i sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch darpariaeth gwasanaethau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'n bod yn cael gwerth am arian wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn.

### Perfformiad y system

25. Ein nod yw cael model cynaliadwy ar draws darparwyr preifat a gwirfoddol, a byddwn yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd yn y strwythurau a'r dyluniad gweithredol newydd. Ers yr ymgynghoriad, wrth i ni ystyried ein strategaeth ar gyfer y gwasanaeth prawf yn y dyfodol, rydym yn dal i adolygu perfformiad yr NPS a’r CRCau. Mae hyn yn cynnwys y dadansoddiad o berfformiad y system a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC), y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac adroddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

26. Rydym yn gwybod bod rhagolygon ariannol rhai o'r darparwyr yn dal i fod yn anodd. Roedd Working Links yn un o wyth Sefydliad Rhiant y CRCau presennol ac yn berchen ar dri Chwmni Adsefydlu Cymunedol. Ym mis Chwefror 2019, aethant i ddwylo'r gweinyddwyr. Rhoddodd yr adran gynlluniau wrth gefn parod ar waith gan sicrhau bod staff a gwasanaethau'n symud yn ddidrafferth i un o'r Sefydliadau Rhiant eraill, Seetec, i ddarparu'r gwasanaethau yn y tair ardal yr effeithiwyd arnynt.

27. Ym mis Mehefin 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ei adroddiad ar Drawsnewid Adsefydlu[5]. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig cyfres o argymhellion ar gyfer ein dull gweithredu yn y dyfodol gan gynnwys argymhelliad y dylai'r “Weinyddiaeth Cyfiawnder ddechrau adolygu dyfodol tymor hir a chynaladwyedd y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf o dan y modelau a gyflwynwyd gan ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu...”. Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ymateb dros dro'r Llywodraeth ar yr adroddiad Trawsnewid Adsefydlu, ac ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn bydd y Llywodraeth yn ymateb yn llawn i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder[6].

28. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu hadroddiad diweddaraf ar ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu[7], gan argymell bod yr adran yn oedi ac yn myfyrio ynghylch y dull gweithredu sydd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad i roi sicrwydd bod modd cyflawni'r cynigion yn yr ymgynghoriad a'u bod yn gyson â nodau strategol yr adran ar gyfer y system y gwasanaeth prawf. Awgrymodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried yn ofalus

---

5 Y Pwyllgor Cyfiawnder, Transforming Rehabilitation, Ninth Report of Session 2017-19, tud 67 Mehefin 2018 - https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmjust/482/482.pdf

6 Ymateb interim i Nawfed Adroddiad Sesiwn 2017-19 y Pwyllgor Cyfiawnder: Transforming Rehabilitation, Hydref 2018 - https://www.parliament.uk/documents/commons-committees/Justice/correspondence/tr-gov-consultation.pdf

7 NAO, Transforming Rehabilitation: Progress review, Mawrth 2019 - https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Transforming-Rehabilitation-Progress-review.pdf

yr heriau o ran cynaliadwyedd darparwyr a'r amrywiadau yn ansawdd y gwasanaethau prawf.


29. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac ynddo mae'n disgrifio bod y model presennol ar gyfer darparu gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr yn “gwbl ddiffygiol”. Galwyd am ailfeddwl am y cynigion i greu system sy'n “addas ar gyfer y dyfodol”[8]. Yn benodol, galwodd y Prif Arolygydd Prawf, y Fonesig Glenys Stacey, am i'r gwasanaethau prawf fod yn seiliedig ar dystiolaeth — gyda chefnogaeth ymchwil, tystiolaeth a gwerthusiadau – a'u bod yn diwallu anghenion y dioddefwyr a'r unigolion o dan oruchwyliaeth drwy sicrhau y “dylai'r gwaith prawf fod o'r ansawdd priodol, pwy bynnag sy'n ei ddarparu”. Gan gyfeirio at staff y gwasanaeth prawf, galwodd yr adroddiad am “wasanaeth proffesiynol ac integredig” wedi'i gefnogi gan ddigon o weithwyr proffesiynol cymwysedig. Galwodd y Fonesig Glenys Stacey am “wasanaeth prawf a oedd yn gallu ennyn hyder y farnwriaeth, dioddefwyr, y staff proffesiynol a gyflogir a'r cyhoedd yn gyffredinol”.

30. Ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol, mae adroddiadau arolygu annibynnol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi wedi rhoi adborth parhaus am berfformiad yr NPS a’r CRCau[9]. Mae'r adroddiadau hyn wedi asesu'r NPS a’r CRCau yn erbyn y ffordd maent yn darparu fel sefydliad ac yn goruchwylio achosion, ac maent yn ystyried y gwaith penodol sy'n cael ei wneud yn amlwg gan y CRCau yn unig a chan yr NPS yn unig.

8 Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Adroddiad y Prif Arolygydd Prawf, Mawrth 2019 - https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/media/press-releases/2019/03/reportofthechiefinspectorofprobation/ ; https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/HMI-Probation-Chief-Inspectors-Report.pdf

9 Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiad o'r gwasanaethau prawf, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections?s&probation-inspection-type=inspection-of-probation-services

## Crynodeb o sgorau a chanfyddiadau arolygiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Mawrth 2019



| Probation inspection ratings table | | | | | Operational delivery | | | | Case supervision | | | | NPS specific | | CRC specific | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Service inspected | Type | Published | Overall rating | Composite score | Leadership | Staff | Services | Information and facilities | Assessment | Planning | Implementation and delivery | Review | Court reports and case allocation | Statutory victim work | Unpaid work | Through the Gate |
| Midlands Division | NPS | 18/12/2018 | Good | 21 | Good | Requires improvement | Good | Requires improvement | Outstanding | Outstanding | Good | Good | Outstanding | Good | | |
| North West | NPS | 22/02/2019 | Good | 19 | Good | Requires improvement | Good | Requires improvement | Good | Good | Good | Good | Good | Outstanding | | |
| South West South Central | NPS | 01/11/2018 | Good | 16 | Good | Requires improvement | Requires improvement | Requires improvement | Outstanding | Good | Requires improvement | Requires improvement | Good | Good | | |
| Essex | CRC | 10/10/2018 | Requires improvement | 14 | Good | Good | Good | Good | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Requires improvement | | | Good | Requires improvement |
| Derbyshire, Leicestershire, Nottinghamshire and | CRC | 23/01/2019 | Requires improvement | 13 | Good | Requires improvement | Good | Good | Inadequate | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | | | Good | Good |
| Durham Tees Valley | CRC | 06/03/2019 | Requires improvement | 13 | Outstanding | Good | Good | Good | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | Inadequate | | | Good | Requires improvement |
| Humberside, Lincolnshire and North Yorkshire | CRC | 21/02/2019 | Requires improvement | 12 | Good | Requires improvement | Requires improvement | Requires improvement | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Requires improvement | | | Good | Good |
| West Yorkshire | CRC | 31/10/2018 | Requires improvement | 11 | Good | Requires improvement | Good | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | Inadequate | | | Good | Good |
| Thames Valley | CRC | 28/11/2018 | Requires improvement | 11 | Good | Good | Requires improvement | Good | Good | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | | | Inadequate | Requires improvement |
| Merseyside | CRC | 26/09/2018 | Requires improvement | 10 | Good | Requires improvement | Requires improvement | Good | Good | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | | | NR | Requires improvement |
| Northumbria | CRC | 07/11/2018 | Requires improvement | 10 | Requires improvement | Good | Good | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | Inadequate | | | Good | Requires improvement |
| Staffordshire & West Midlands | CRC | 19/12/2018 | Requires improvement | 9 | Good | Requires improvement | Good | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | Inadequate | | | Good | Inadequate |
| Dorset, Devon and Cornwall | CRC | 20/02/2019 | Inadequate | 5 | Inadequate | Inadequate | Inadequate | Requires improvement | Requires improvement | Inadequate | Inadequate | Inadequate | | | Requires improvement | Good |

☆ Outstanding ● Good ● Requires improvement ● Inadequate NR Not rated

Figure 6. Summary HMI Probation inspection findings and ratings.

31. Mae ffigur 6, fel y mae wedi'i gyhoeddi yn adroddiad blynyddol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, yn rhoi crynodeb cyffredinol o'u harolygiadau hyd at fis Mawrth 2019. Ers hynny, mae adroddiadau ychwanegol wedi cael eu cyhoeddi yn rhoi sylw i bedwar CRC arall a rhanbarth ychwanegol yr NPS. O blith yr 14 arolygiad diweddar o'r CRCau, dywedwyd bod un yn ‘dda’, a bod ‘angen gwella’ 12 ohonynt a bod un yn ‘ddiffygiol’. O blith y pedwar arolygiad diweddar o'r NPS, dywedwyd bod pob un ohonynt yn 'dda'. Mae enghreifftiau wedi bod o elfennau unigol o berfformiad sy'n amrywio o ddiffygiol i eithriadol ar draws y ddau sefydliad[10].

32. Mae adroddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi wedi gweld dro ar ôl tro nad yw Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu gwasanaeth boddhaol ar draws y gwaith goruchwylio achosion – yn enwedig ar gyfer troseddwyr agored i niwed a’r rheini sy’n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig – ond maent wedi gweld tystiolaeth o wasanaeth o ansawdd gwell ar gyfer Gwaith Di-dâl ac ymyriadau Drwy'r-Giât. O ran gweithredu a darparu goruchwyliaeth yn y gwasanaeth prawf, o blith y 14 Cwmni Adsefydlu Cymunedol sydd wedi cael eu harolygu ers mis Ionawr 2018, dywedwyd bod 'angen gwella' tri ohonynt a bod yr 11 arall yn 'ddiffygiol'. Mae hyn yn cymharu ag

10 Ffigur o adroddiad blynyddol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, tud 40 Mawrth 2019 - https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/HMI-Probation-Chief-Inspectors-Report.pdf

asesiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o ddarpariaeth Gwaith Di-dâl y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, lle mae 10 wedi cael statws 'Da,' ac mae dau ‘angen eu gwella’, a’r ddau arall a gafodd eu hasesu'n unigol wedi cael statws 'heb ei asesu’ a 'diffygiol’ yn y drefn honno.

33. Rydym yn gwybod bod dirywiad wedi bod yng nghyfran y dedfrydau cymunedol. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r newid mewn tueddiadau o ran y rheini sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol, sy'n golygu mai'r rheini sydd â hanes troseddol hir – sy'n fwy tebygol o aildroseddu, a rhai yn gyson – fydd i gyfrif am y gyfran fwy o'r boblogaeth sy'n troseddu (mae'r troseddwyr hyn yn fwy tebygol o gael dedfrydau dan glo ar unwaith).

34. Yn 2017, cafodd 67% o'r troseddwyr a ddedfrydwyd i gaethiwed ar unwaith ddedfryd o 12 mis neu lai. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol na dedfrydau byr dan glo o ran lleihau lefel aildroseddu. Yn 2015, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yr astudiaeth ‘The impact of short custodial sentences, community orders and suspended sentence orders on re-offending’ a oedd yn cynnwys oddeutu 350,000 o achosion dedfrydu dros gyfnod o bedair blynedd a chan ddefnyddio 130 o newidynnau gwahanol i greu grwpiau cyfatebol o droseddwyr ac edrych ar effaith dedfrydau byr o'u cymharu â dedfrydau cymunedol[11]. Yn yr astudiaeth hon, gwelwyd gostyngiad o oddeutu 3% yn lefel yr aildroseddu wedi'i brofi pe byddai troseddwyr a oedd yn cael dedfrydau o lai na 12 mis yn cael gorchymyn cymunedol yn lle hynny. O ran ystadegau, mae hyn yn sylweddol ac mae'n gyfystyr ag oddeutu 30,000 o aildroseddau wedi'u profi i gyd mewn cyfnod o flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod llai o ddioddefwyr troseddau.

35. Er mwyn i ddedfrydau cymunedol gael eu defnyddio'n effeithiol, mae'n hanfodol eu bod yn ennyn hyder y farnwriaeth, dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gyda dedfrydau cymunedol, mae gofyn bod y troseddwr yn cael ei oruchwylio'n briodol, ei fod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gwneud iawn am ei drosedd, a'i fod yn cael y cymorth sydd ei angen i roi'r gorau i droseddu. Os nad yw'r amodau hyn yn cael eu bodloni, bydd y gwasanaethau prawf yn cymryd camau i orfodi'r ddedfryd. Dylai dedfrydwyr deimlo'n hyderus y bydd gorchmynion cymunedol yn gwella'r canlyniadau o ran adsefydlu. Rydym yn gwybod, o dan y system bresennol, bod llawer o ddedfrydwyr yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i droseddwr ar ôl ei ddedfrydu.

36. Mae'r adborth a'r dadansoddiad wedi ein helpu wrth i ni ystyried ein cynigion ar gyfer strategaeth y gwasanaeth prawf yn y dyfodol.

---

[11] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, The impact of short custodial sentences, Community Orders and Suspended Sentence Orders on reoffending, Ionawr 2015 -

# Ein dull gweithredu yn y dyfodol

## Crynodeb

37. Mae gwasanaethau prawf effeithiol yn rhan hanfodol o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n rhaid eu bod yn ennyn hyder y cyhoedd a'r llysoedd, yn cosbi ac yn ailsefydlu troseddwyr yn briodol, yn lleihau lefel troseddu drwy fynd i'r afael ag aildroseddu ac yn amddiffyn y cyhoedd.

38. O fewn y system cyfiawnder troseddol ehangach, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael cydweithrediad a chydlyniant effeithiol – o'r llysoedd i'r carchardai i'r gwasanaethau prawf – i sicrhau ein bod yn creu ac yn darparu system gyfiawnder sy'n gweithio i gymdeithas, i'r rheini a gyflogir ar y rheng flaen ac i'r troseddwyr sydd am roi trefn ar eu bywydau. Mae llawer yn y system bresennol y gallwn adeiladu arno.

39. Wrth i ni weithredu yn y dyfodol, ein bwriad yw bod yr NPS yn gyfrifol am yr holl wasanaethau rheoli troseddwyr - ar gyfer troseddwyr risg isel, canolig ac uchel[12]. Mae sefydliadau preifat a sefydliadau gwirfoddol wedi dangos eu bod yn gallu darparu ymyriadau yn dda. Byddwn yn dal gafael ac yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy gael yr holl wasanaethau, fel Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achredededig, ac ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu eraill gan y marchnadoedd sector preifat a gwirfoddol. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy gystadlaethau i bartneriaid arloesedd ddarparu Gwaith Di-dâl a Rhaglenni Achredededig, a drwy greu fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu. Rydym yn disgwyl y bydd cyfanswm gwerth y gwasanaethau a fydd yn cael eu prynu oddeutu £280M y flwyddyn mewn cyflwr sefydlog.

40. Byddwn yn mynd ati'n awr i ymgysylltu am gyfnod gyda'r farchnad a'r rhanddeiliaid i gwblhau ein cynigion, gan gynnwys sut bydd gwasanaethau'n cael eu pecynnu mewn cystadlaethau, ac i nodi rhagor o fanylion am gynllun gwasanaethau yn y dyfodol. Byddwn yn mynd ati wedyn i lansio'r prosesau cystadlu yn ddiweddarach yn y flwyddyn i bartneriaid arloesedd ddarparu Gwaith Di-dâl a'r Rhaglenni Achredededig a'r fframwaith deinamig.

41. Yn yr ymgynghoriad yn ystod yr haf 2018, fe aethom ati i osod ein cynigion i gefnogi'r strategaeth i wella'r gwasanaethau prawf y tu hwnt i 2020. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Goruchwylio troseddwyr a rhoi dedfryd y llys ar waith
- Adsefydlu troseddwyr yn fwy effeithiol
- Paratoi carcharorion ar gyfer bywyd yn y gymuned
- Gweithlu sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn

12 goruchwylio troseddwyr sydd â dedfryd gymunedol, neu wedi'u rhyddhau o'r carchar

- Gwella integreiddiad y system
- Gweithio'n agosach â phartneriaid
- System brawf sy'n gweithio i Gymru
- Gwella perfformiad

42. Wrth weithredu'r model diwygiedig hwn, ein prif nodau yw cynnal sefydlogrwydd ar draws system y gwasanaeth prawf ac adsefydlu troseddwyr yn effeithiol, a sicrhau gwerth da am arian. Rhaid sicrhau bod swyddogaethau craidd y gwaith o reoli troseddwyr, amddiffyn y cyhoedd a gweithredu gorchmynion y llys yn cael eu rhoi ar waith gan gyrraedd lefel dderbyniol.

43. Rydym am sicrhau bod trefniadau darparu yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng troseddwyr a swyddogion prawf; bod troseddwyr yn gallu cael gafael ar fynediad i ystod o wasanaethau statudol a chyfeirio at ddarpariaeth ehangach a fydd, gyda'i gilydd, yn gymorth iddynt adsefydlu, hyrwyddo mynediad at waith, llety diogel ac yn lleihau lefelau aildroseddu. Mae angen i ni sicrhau bod buddsoddiad yr adran yn darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol yn ogystal â darparu gwerth am arian a chynaliadwyedd ariannol ar gyfer y gwasanaeth prawf.

44. Rydym am hyrwyddo mwy o integreiddio ar draws system y gwasanaeth prawf a chyda phartneriaid eraill, fel awdurdodau datganoledig, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, partneriaid darparu a chomisiynwyr eraill. Bydd hyn yn ein helpu i gael gwared ar unrhyw ddyblygu, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd a chryfhau tryloywder.

45. Bydd sicrhau bod gan ddedfrydwyr fwy o hyder yn y ddarpariaeth o wasanaethau prawf yn elfen bwysig wrth ddefnyddio mwy ar yr ystod lawn o ddewisiadau eraill sydd ar gael i'r llysoedd heblaw caethiwed, ac i gefnogi ein dyheadau tymor hwy i ddiwygio'r drefn ddedfrydu. Rydym o'r farn y bydd ein model diwygiedig yn caniatáu i ni ail-feithrin yr hyder hwn yn gyflymach.

46. Bydd ein newidiadau’n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer ymdrechion i wella’r ddarpariaeth ar gyfer troseddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth, y rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a’r troseddwyr hynny sy’n debygol o wynebu anfanteision neu wahaniaethu penodol ar sail nodweddion gwarchodedig, fel troseddwyr benywaidd, anabl, Du neu o Leiafrifoedd Ethnig (BAME). Mae adroddiadau gan HMIP a phartneriaid eraill wedi beirniadu'r gwahaniaethau mewn canlyniadau ar gyfer y troseddwyr hyn ac roedd nifer o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn sôn am hyn. Er bod y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad yn cydnabod bod angen mynd i’r afael â’r anghydraddoldeb hwn, rydym yn hyderus y bydd ein dull gweithredu newydd yn gallu sicrhau manteision ychwanegol ar gyfer troseddwyr agored i niwed ac rydym wedi ymrwymo i wireddu’r manteision hyn wrth symud ymlaen. Er enghraifft, bydd dod â swyddogaethau rheoli troseddwyr at ei gilydd o dan yr NPS yn sicrhau’r hyblygrwydd er mwyn i hyfforddiant ac ymarfer allu esblygu yn unol â’n dealltwriaeth o’r arfer orau ar gyfer goruchwylio troseddwyr agored i niwed. Bydd creu fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu yn hyrwyddo cyfranogiad cyflenwyr llai sy’n aml yn gallu

darparu ar gyfer cohortau penodol o droseddwyr. A bydd trefniadau cryfach i weithio mewn partneriaeth yn golygu mwy o gefnogaeth gydgysylltiedig i grwpiau sy’n wynebu canlyniadau gwahanol ar draws y system cyfiawnder troseddol.

47. Wrth roi'r newid hwn ar waith, mae angen i ni gydnabod rôl a gwerth gweithlu'r gwasanaeth prawf a sicrhau bod y gweithlu'n cael ei ddatblygu i gyflawni gofynion y system yn y dyfodol. Rydym yn gwybod, i lawer o staff, mai proffesiwn galwedigaethol yw'r gwasanaeth prawf, ac rydym am sicrhau bod staff yn cael eu cymell a'u cefnogi gyda chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae angen gweithlu arnom sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau prawf effeithlon ar yr adeg briodol, yn y man priodol ac yn y modd priodol, gan sicrhau bod cysylltiad rheolaidd â'r troseddwyr, bod y troseddwyr yn cael eu hasesu'n briodol, a bod cynllun dedfrydu'n cael ei ddatblygu, ei weithredu a'i adolygu.

## Goruchwylio troseddwyr a rhoi dedfryd y llys ar waith

48. Mae rheoli troseddwyr yn cyfeirio at y gwaith o reoli troseddwyr sydd â dedfryd gymunedol, cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar ac ar ôl hynny. Mae'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y gwaith o gyflawni'r swyddogaeth hon yn cynnwys cynnig cyngor i'r llys cyn dedfrydu ynghylch y math mwyaf addas o ddedfryd ar gyfer y troseddwr, cynnal asesiadau risg ac asesiadau angen rheolaidd ar gyfer y troseddwyr, cynllunio dedfrydau, cydlynu gofynion cyflawni'r ddedfryd neu amodau'r drwydded, a gorfodi unrhyw achos o dorri amodau'r gofynion neu'r amodau hynny gan gynnwys cael eu galw'n ôl i gaethiwed.

49. Mae'r cyfrifoldeb dros wneud hyn ar hyn o bryd yn cael ei rannu rhwng yr NPS a'r CRCau, gyda'r NPS yn rheoli troseddwyr risg uchel a'r CRCau yn rheoli troseddwyr risg isel i ganolig. Mae'r NPS hefyd yn rhoi cyngor i'r llysoedd gan gynnwys adroddiadau cyn-dedfrydu, adolygiadau ac achosion gorfodi ar gyfer pob troseddwr. Roedd yr heriau a'r cymhlethdod sy'n deillio o'r ffaith bod y gwaith rheoli troseddwyr yn cael ei rannu rhwng yr NPS a'r CRCau yn un o'r prif themâu a gododd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn yr adborth gan randdeiliaid gan gynnwys HMIP.

50. Ym mis Mehefin 2018, nodwyd yn adroddiad Trawsnewid Adsefydlu'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder bod y rhannu rhwng yr NPS a’r CRCau wedi “cymhlethu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf ac wedi creu system “dwy haen”... Mae'r rhannu'n achosi problemau wrth ddarparu'r gwasanaethau prawf gan fod risg troseddwr yn gallu newid yn ystod eu cyfnod ar brawf”. Dywedodd y Pwyllgor “nad oedd yn argyhoeddedig mai rhannu troseddwyr yn ôl risg oedd y ffordd briodol o rannu'r system gwasanaeth prawf. Nid yw rhannu'r system yn y fath fodd yn cydnabod bod y risg o niwed y gall unigolyn ei beri yn gallu newid dros amser”[13].

51. Yn Adroddiad Blynyddol mis Mawrth 2019, dywedodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi mai'r hyn sy'n digwydd yn y model *Trawsnewid Adsefydlu* yw bod achosion unigol yn cael eu trosglwyddo rhwng yr NPS a’r CRCau os oes elfennau penodol yn cael eu sbarduno. Mae angen i'r sefydliadau gysylltu â naill a'r llall a chysylltu â sefydliadau lleol eraill a'r farnwriaeth, o ddydd i ddydd, ond nid yw'r ffiniau yn cyd-fynd yn ddaearyddol. Felly, mae'r broses gysylltu yn fwy cymhleth na'r hyn y mae angen iddi fod.”[14]

52. Ni wnaethom ymgynghori'n uniongyrchol ynghylch rhannu'r swyddogaethau rhwng yr NPS a’r CRCau, ond dywedodd cyfran sylweddol, oddeutu 40%, o'r holl ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld yr holl waith o reoli troseddwyr yn cael ei integreiddio i un sefydliad, ac roedd cefnogaeth eang i'r model darparu a gafodd ei ddisgrifio yn yr ymgynghoriad ar gyfer Cymru. Ymhlith y themâu eraill a godwyd yn yr ymatebion i'r

---

[13] Y Pwyllgor Cyfiawnder, Transforming Rehabilitation, Ninth Report of Session 2017-19, tud 4, tud 30 Mehefin 2018 - https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmjust/482/482.pdf

[14] Adroddiad blynyddol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, tud 79 Mawrth 2019 - https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/HMI-Probation-Chief-Inspectors-Report.pdf

ymgynghoriad oedd pwysigrwydd cael un Rheolwr Troseddwyr drwy gydol y ddedfryd a sicrhau bod y cysylltiad rhwng y Rheolwr Troseddwyr a'r troseddwr yn digwydd ar raddfa briodol.

53. Rydym wedi meddwl yn ofalus am y ffordd orau o fynd ati i reoli troseddwyr mewn trefniadau yn y dyfodol a'r angen i gael cydbwysedd rhwng lleihau unrhyw darfu pellach, a'r angen i gael trefniadau cynaliadwy yn y dyfodol y bydd gan ddedfrydwyr a'r cyhoedd ffydd ynddynt.

54. O dan y model diwygiedig, bydd yr NPS yn gyfrifol am yr holl wasanaethau rheoli troseddwyr - ar gyfer risg isel, canolig ac uchel. Wrth uno'r holl swyddogaeth rheoli troseddwyr o fewn yr NPS, bydd hyn yn golygu bod mwy o reolaeth dros ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a sicrhau ein bod yn gallu addasu'n well o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn barod i'r newidiadau mewn niferoedd heb amharu ar yr ansawdd. Bydd yr NPS yn dal i roi cyngor i'r llysoedd.

55. Mae manteision clir o gael un sefydliad sydd â chyfrifoldebau rhanbarthol clir ac yn gyfrifol am reoli troseddwyr. Bydd hyn yn caniatáu i ni ymateb yn well i newidiadau mewn llwythi achosion — er enghraifft, cynnydd neu ostyngiad yng nghyfran y troseddwyr uchel neu droseddwyr risg canolig-isel. Bydd yn cael gwared ar aneffeithlonrwydd prosesau gan na fydd angen trosglwyddo achosion rhwng yr NPS a’r CRCau mwyach wrth i'r asesiad o'r risg newid.

56. Wrth gydgrynhoi'r cyfrifoldeb dros reoli troseddwyr mewn un sefydliad, bydd hyn yn sicrhau bod y safonau gofynnol ar gyfer darparu yn glir, a bydd hyn yn helpu i gael dull cyson o weithredu i sicrhau ymgysylltu effeithiol a bod cymaint o ddilyniant ag y bo modd o ran Swyddog Cyfrifol y troseddwyr. Hefyd, bydd y model hwn yn galluogi'r Swyddogion Cyfrifol i weithio gydag ystod fwy amrywiol o droseddwyr sydd â gwahanol anghenion a risgiau, a bydd hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu ystod ehangach o sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu. Wrth wneud hyn, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn lleddfu'r pwysau ar Swyddogion Prawf sy'n rheoli llwyth achosion risg uchel yn unig ar hyn o bryd, a bydd yn caniatáu i ni gynnig cyfleoedd gwell i ddatblygu gyrfaoedd ar gyfer staff gwasanaeth prawf drwy roi cyfle i reoli llwyth achosion amrywiol.

57. Ar lefel weithredol, byddai'r model diwygiedig yn cynnig cyfres o fanteision:

- gwahaniaethau clir mewn swyddogaethau i sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth prawf, cael gwared ar rai o'r heriau sy'n codi ynghylch prosesau dyrannu ac uwchgyfeirio risg;
- manteision yn sgil cysondeb yn y gwaith rheoli, a llai o drosglwyddo rhwng staff a sefydliadau;
- sicrhau un broses a chynnyrch safonol (gan gynnwys adnoddau asesu) sydd ag un strwythur clir ar gyfer goruchwylio'r gwaith rheoli;
- symleiddio trefniadau ar gyfer rhoi cyngor i'r llysoedd ac ailsefydlu troseddwyr cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar ac ar ôl hynny;
- manteision cynhyrchiant o ran rheoli llwyth achosion sydd â chymysgedd o risg niwed isel, canolig ac uchel mewn un sefydliad;

- galluogi datblygu safonau clir ar gyfer goruchwylio troseddwyr agored i niwed a gwella'r rheini'n barhaus, gan gynnwys y troseddwyr hynny sydd ag anghenion cymhleth a'r rheini sydd mewn perygl o wynebu gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig, yn ogystal â chasglu data'n well ar gohortau gwahanol o droseddwyr i gefnogi'r nod yma;

- mwy o allu i ymateb i newidiadau mewn niferoedd, gan gynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn troseddwyr yn y dyfodol; a
- sicrhau bod gan y dedfrydwyr fwy o hyder yng ngallu'r gwasanaeth prawf.

58. Ar ben hynny, bydd rhoi cyfrifoldeb i'r NPS am yr holl waith o reoli troseddwyr yn symleiddio'r broses o gyflwyno newidiadau deddfwriaethol a pholisïau newydd i'r system yn y dyfodol. Rydym yn rhagweld y bydd hyn hefyd yn ein galluogi i fod yn fwy effeithiol wrth reoli'r broses o recriwtio a chadw gweithlu'r gwasanaeth prawf.

## Datblygu marchnad gymysg gynaliadwy

59. Gyda diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu, cafodd darparwyr y sector preifat a gwirfoddol fwy o rôl o ran goruchwylio troseddwyr risg isel a risg canolig a darparu ymyriadau i droseddwyr yn system gyfan y gwasanaeth prawf. Mae peth cymhlethdod wedi bod ynghylch y rhyngweithio rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaeth prawf ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac rydym wedi meddwl yn ofalus am sut i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn bendant bod dal rôl i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf, ac rydym yn croesawu manteision unrhyw ffyrdd arloesol a darpariaeth effeithiol a ddaw drwy hyn.

60. Rydym wedi gweld tystiolaeth o ddarpariaeth dda o Waith Di-dâl a Rhaglenni Achrededig yn y model presennol o ddarpariaeth dan gontract. Mewn arolygiadau o fis Ionawr 2018 hyd yma, mae asesiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o ddarpariaeth Gwaith Di-dâl Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi gweld bod 10 wedi cael eu hasesu fel rhai 'Da', aseswyd bod 'angen gwella' dau, ac roedd y ddau arall a aseswyd yn unigol wedi cael statws 'heb ei asesu' a 'diffygiol' yn y drefn honno.

*61.* Yn amodol ar yr ymgysylltiad â'r farchnad, ein bwriad yn y dyfodol yw ein bod yn caffael partneriaid arloesedd i ddarparu'r gwasanaethau hyn ym mhob un o'r rhanbarthau yng Nghymru ac yn Lloegr. Bydd y cyflenwyr hyn yn gweithio'n agos â'r NPS i weithredu dedfrydau'r llysoedd a helpu i ddatblygu arloesedd ehangach yn y system. Byddwn yn ymgysylltu â'r farchnad gan gychwyn o fis Mai 2019 er mwyn pennu natur y cystadlaethau a siâp cyfleoedd contract yn y dyfodol.

62. Yn amodol ar yr ymgysylltiad â'r farchnad, byddwn yn lansio cystadleuaeth ar gyfer y gwasanaethau canlynol i'w darparu gan ddarparwyr dan gontract fel partner arloesedd ar gyfer pob rhanbarth (mae terfyn cyfran y farchnad i'w bennu o hyd).

**Gwaith Di-dâl** - Mae gofynion Gwaith Di-dâl yn gosb effeithiol i droseddwyr, a dyma un o'r gofynion mwyaf cyffredin a roddir fel rhan o ddedfrydau cymunedol. Mae'n ofynnol i droseddwyr wneud iawn uniongyrchol â'r gymuned am eu trosedd drwy wneud gwaith sy'n dwyn budd i drigolion lleol – ac maent yn gallu cefnogi proses adsefydlu troseddwr drwy ddysgu disgyblaeth a threfn i'r troseddwyr. Mae hyn yn gallu rhoi'r sgiliau a'r profiad iddynt hefyd a fydd yn gallu eu helpu i ddod o hyd i waith cyflogedig. Mae hyd at 20% o oriau gwaith di-dâl troseddwr yn gallu cynnwys hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith i roi cyfle i'r troseddwr ddatblygu sgiliau gweithle.

**Rhaglenni Achrededig** - Mae Rhaglenni Achrededig yn rhaglenni â strwythur sy'n rhoi sylw i fathau o ymddygiad allweddol sy'n gysylltiedig â throseddu. Maent yn cael eu hachredu gan y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywiro sy'n banel o arbenigwyr annibynnol sy'n asesu a yw'r rhaglen yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac a fydd y rhaglen yn effeithiol, os caiff ei rhoi ar waith yn dda. Mae modd cyflwyno Rhaglenni Achrededig i droseddwyr pan fyddant

mewn caethiwed neu yn y gymuned naill ai fel rhan o Orchmynion Llys neu i'r rheini sydd ar Drwydded.

63. Roedd un o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn sôn bod angen sicrhau bod mwy o hyfforddiant sgiliau a chymwysterau ar gael fel rhan o'r gorchmynion Gwaith Di-dâl, a mwy o gysylltiadau â chyflogwyr a phrentisiaethau. Bydd cystadleuaeth Gwaith Di-dâl yn gofyn bod darparwyr sector preifat a gwirfoddol yn gweithio gyda phartneriaethau lleol i gael lleoliadau o ansawdd digonol i droseddwyr, a fydd yn sicrhau cynifer o gyfleoedd Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ag y bo modd ac yn gwneud iawn mewn cymunedau lleol.

## Rôl gliriach i'r sector gwirfoddol a darparwyr llai

64. Un o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac wrth i ni ymgysylltu â'r sector gwirfoddol oedd nad oedd y sector wedi cael ei ddefnyddio mor helaeth ag a ragwelwyd o dan ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu. Mae'r sector gwirfoddol wedi dweud dro ar ôl tro nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yn y system bresennol, ac er eu bod yn awyddus i chwarae rôl fwy yn y gwaith o ddarparu ymyriadau ailsefydlu, mae'r drefn bresennol wedi'i gwneud yn anodd iddynt fod yn rhan.

65. Yn eu hadroddiad ym mis Ebrill 2018, 'Under represented, Under pressure, Under resourced', dywedodd Clinks mai "ychydig iawn o sefydliadau gwirfoddol sy'n rhan o'r gwaith fel is-gontractwyr". Yn ôl eu gwaith ymchwil, roedd hyd at 65% o'r 132 o sefydliadau gwirfoddol a holwyd ar gyfer eu hymchwil heb gael eu hariannu gan ddarparwyr gwasanaeth prawf, ond roedd y gwasanaethau prawf a'r carchardai yn cyfeirio achosion atynt yn rheolaidd[15]. Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi awgrymu cyflwyno swyddogaeth comisiynu lleol i sicrhau ymgysylltu gwell â sefydliadau'r sector gwirfoddol ynghylch dyluniad y gwasanaethau i droseddwyr.

66. Rydym am weld rôl gliriach i ystod eang o ddarparwyr y sector gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau prawf, gan gynnwys gwasanaethau lleol ac arbenigol. Yn ystod yr ymgynghoriad, cawsom wybod bod angen i ni ystyried sut mae creu'r amgylchedd priodol i alluogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ystod o wasanaethau o ymyriadau strwythuredig i helpu i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau neu wella cyflogadwyedd, i fentora troseddwyr fel rhan o'r Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu, cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar neu ar ôl hynny. I wneud y mwyaf o'r ystod o ddarparwyr sydd ar gael, rydym o'r farn y dylai'r ymyriadau gael eu comisiynu a'u darparu'n lleol lle y bo hynny'n bosib.

67. Rydym wedi datblygu dull i gefnogi darparwyr llai o'r sector gwirfoddol i gymryd rhan uniongyrchol wrth ddarparu gweithgareddau adsefydlu ac ailsefydlu. Gwneir hyn drwy gaffael fframwaith deinamig ledled Cymru a Lloegr. Bydd y fframwaith deinamig yn gweithredu ar ffurf panel agored o gyflenwyr, a fydd yn cael eu derbyn ar y panel unrhyw bryd yn ystod ei oes ar yr amod eu bod yn llwyddo yn y broses gymhwyso (ar sail profiad a gallu). Gofynnir i aelodau panel cymwys gymryd rhan mewn cystadlaethau bach ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen.

> **Ymyriadau Adsefydlu**: Gall gwasanaethau adsefydlu gynnwys ystod o wasanaethau o ymyriadau â strwythur i helpu i fynd i'r afael ag agweddau sydd o blaid troseddu neu wella cyflogadwyedd, i gefnogi troseddwyr i gael gwasanaethau statudol, ac mae modd eu darparu fel rhan o'r Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu neu ar ôl i'r troseddwyr gael eu rhyddhau o'r carchar. Nod yr ymyriadau hyn yw cefnogi troseddwyr i ailintegreiddio yn y gymuned a

15 Clinks, under represented, under pressure, under resourced, Ebrill 2018 - https://www.clinks.org/sites/default/files/2018-10/clinks_track-tr_under_final-web.pdf

lleihau lefelau aildroseddu drwy fynd i'r afael ag ystod o anghenion fel addysg, hunanddibyniaeth, a llety.

**Gwasanaethau ailsefydlu:** Mae gwasanaethau ailsefydlu yn cael eu darparu i droseddwyr tra byddant mewn caethiwed i'w helpu nhw i baratoi i gael eu rhyddhau ac yn y gymuned i'w helpu nhw i ailsefydlu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae'r gwasanaeth yma'n cynnwys nifer o elfennau. Yn unol â'n dull gweithredu ehangach ar gyfer rheoli troseddwyr rydym yn bwriadu y bydd cyfrifoldebau yn y dyfodol ar gyfer asesu anghenion troseddwyr; canfod y gwasanaethau sydd eu hangen; a chydlynu darparu'r gwasanaethau hyn yn cael ei ddarparu drwy'r NPS; gyda rôl gliriach o lawer ar gyfer darparwyr sector preifat a gwirfoddol o ran darparu'r ymyriadau'r gwasanaethau hynny. .

68. Yn amodol ar yr ymgysylltiad â'r farchnad, rydym yn cynnig creu a defnyddio fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau ailsefydlu ac adsefydlu fel ein bod yn gallu defnyddio'r ystod lawn o wasanaethau arbenigol ac ymyriadau sydd ar gael, mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion ardaloedd lleol a defnyddwyr gwasanaeth lleol. Byddwn yn cychwyn ymgysylltu â'r farchnad ym mis Mai i ddylunio a datblygu'r fframwaith deinamig hwn. Rydym wedi defnyddio ateb tebyg ar gyfer Addysg yn y Carchar, ac fe gyfeirir at hyn fel System Prynu Deinamig (DPS). Drwy'r system hon hyd yma, rydym wedi cymhwyso dros 220 o gyflenwyr, ac mae 71% o'r rhain yn fentrau bach a chanolig, ac wedi dyfarnu dros 20 contract. Bydd y fframwaith deinamig ar gyfer gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yn cael ei ddylunio i weddu i anghenion y gwahanol gyrff comisiynu, ac efallai y byddant yn wahanol i System Prynu Deinamig Addysg yn y Carchar.

69. Yn y model a gynigiwn, bydd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn defnyddio'r fframwaith deinamig i gomisiynu gwasanaethau. Mae'r fframwaith deinamig yn cynnig yr hyblygrwydd i gomisiynu gwasanaethau ar lefel ranbarthol neu leol. Wrth ddefnyddio'r fframwaith deinamig, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn galluogi mwy o gomisiynu gwasanaethau yn lleol a gwell defnydd o sefydliadau sector gwirfoddol sy'n gweithredu yn y sector cyfiawnder troseddol fel darparwyr arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig troseddwyr agored i niwed a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth. Daw hyn â manteision o ran defnyddio arbenigedd sefydliadau unigol ac arloesi. Rydym yn rhagweld y bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gallu ymateb i anghenion lleol ac annog mwy o waith partneriaeth.

70. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod rheolwyr troseddwyr yn gallu cael gafael yn rhwydd ar wasanaethau sy'n diwallu anghenion eu troseddwyr. Bydd y fframwaith deinamig yn ddigon hyblyg i ddarparu gwasanaethau cyn-rhyddhau mewn carchar fel rhan o'r ailsefydlu yn ogystal â gwasanaeth drwy'r giât ac ar ôl rhyddhau troseddwyr, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, llety mewn eiddo cymeradwy neu Wasanaeth Cymorth a Llety Mechnïaeth. Rydym yn dal yn bwriadu creu gorchymyn ar gyfer y meysydd angen craidd a mynnu bod ymyriadau ar gael ar gyfer y rheini sydd â Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu a'r rheini sydd ar drwydded. Nod yr ymyriadau hyn


fydd mynd i'r afael â'r anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu y mae troseddwyr yn eu profi gan amlaf.

## Gwella'r cyflawni strategol a gwaith partneriaeth lleol

71. Rydym yn bwriadu cyflwyno newidiadau strwythurol a threfniadaethol i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn cynnig system sy'n fwy syml, cydlynol ac effeithlon. Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig creu 11 rhanbarth a fyddai'n rhannu ffiniau ar gyfer darpariaeth sector cyhoeddus a dan gontractau ar draws Cymru a Lloegr.

72. Cafodd hyn ei gynnig er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o'r cymhlethdod rydym wedi'i weld o ganlyniad i'r strwythurau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, lle ceir saith adran NPS a 21 Ardal Pecyn Contract CRC lle mae'r CRCau yn darparu'r gwasanaethau. Mae hyn wedi golygu bod adrannau NPS yn gweithio gyda sawl CRC mewn rhai ardaloedd, a phob un gyda'i fodel gweithredu gwahanol. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n anodd i'r NPS, CRCau a phartneriaid ehangach gydweithio'n strategol ac yn weithredol.


**Strwythurau presennol y gwasanaeth prawf**



*Map yn dangos 21 Ardal Pecyn Contract (CPA) Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC), a 7 rhanbarth adrannol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) (sy'n cael eu dangos gan y ffiniau porffor)*

73. O dan y model diwygiedig, yn Lloegr, bydd pob un o’r adrannau NPS yn cael ei goruchwylio gan Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a fydd yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn gyfrifol am ddarparu a chomisiynu gwasanaethau prawf. Yng Nghymru, mae Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS yng Nghymru eisoes yn gyfrifol am yr holl wasanaethau prawf a charchardai yng Nghymru ac ni fydd hyn yn newid. . Byddwn yn parhau i bwyso a mesur y trefniadau gorau ar gyfer gwneud hyn. Rydym yn bwriadu rhoi hyn ar waith drwy symud o chwe rhanbarth ar gyfer yr NPS i ddeg rhanbarth yn Lloegr ochr yn ochr â gweithredu'r model diwygiedig. Mae'r gwasanaethau yng Nghymru wedi cael eu halinio'n barod felly ni fydd unrhyw newidiadau strwythurol yn fan honno. Rydym yn credu y bydd hyn yn creu amgylchedd cynllunio strategol symlach a'i fod yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng arbedion effeithlonrwydd a model sy'n darparu ar y raddfa iawn.

**Proposed future structure of probation areas**




| Code | Area |
|---|---|
| A | North East |
| B | North West |
| C | Yorkshire and Humberside |
| D | Wales |
| E | West Midlands |
| F | East Midlands |
| G | South West |
| H | South Central |
| I | Eastern England |
| J | London |
| K | Kent, Surrey and Sussex |

74. Rydym wedi gwrando'n astud ar randdeiliaid ac ar yr adborth i'r ymgynghoriad sydd wedi tynnu sylw at bryderon am siâp ein hadrannau, gan gynnwys aliniad y rhanbarthau arfaethedig ag olion troed partneriaid a phartneriaethau eraill a sut rydym yn sicrhau bod darparu'r gwasanaethau prawf yn y rhanbarthau'n cael ei deilwra'n lleol. Yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2019, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi tynnu sylw at bryderon y gallai trosglwyddo i ardaloedd pecynnau contract newydd "amharu'n anochel ar staff prawf..." ac y gallai "newid darparwyr a ffiniau daearyddol hefyd amharu ar droseddwyr a fydd yn cael eu goruchwylio adeg y newid"[16].

75. Nid oes ffurfweddiad daearyddol perffaith gan fod gwasanaethau a phartneriaethau gwahanol yn cael eu strwythuro mewn ffyrdd gwahanol, serch hynny mae ein strwythurau rhanbarthol arfaethedig yn cyd-fynd â phartneriaid allweddol gan gynnwys ffiniau'r PCCau. Wrth gyrraedd ein hasesiad ar gyfer 11 rhanbarth ar draws Cymru a Lloegr, rydym wedi ceisio cael y cydbwysedd iawn rhwng y potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ar draws y system prawf a threfniadau sy'n nes at strwythurau darparu eraill y system cyfiawnder troseddol ac sy'n gallu hwyluso gwaith partneriaeth. Serch hynny, byddwn yn parhau i ystyried y model hwn yn ofalus er mwyn sicrhau mai dyma'r ffurfweddiad gorau. O dan y strwythurau rhanbarthol arfaethedig, byddwn yn cadw'r system o Unedau Cyflenwi Lleol (LDU), a drwy integreiddio'r cyfrifoldeb dros yr holl waith rheoli troseddwyr yn y NPS bydd gennym un sefydliad yn arwain yr ymgysylltu lleol.

76. Wrth baratoi ar gyfer y newid hwn i'r strwythur rhanbarthol diwygiedig, byddwn yn ystyried yn ofalus sut mae modd rheoli hyn mewn ffordd sy'n amharu cyn lleied â phosibl ar y staff, ar droseddwyr ac ar y rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaeth prawf yn y system cyfiawnder troseddol ehangach. Ers cyhoeddi'r cynigion yn yr

16 NAO, Transforming Rehabilitation: Progress review, tt42, Mawrth 2019 - https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Transforming-Rehabilitation-Progress-review.pdf

ymgynghoriad, rydym eisoes wedi gweld trefniadau gwaith partneriaeth yn cael eu datblygu sy'n cyfateb i'r 11 rhanbarth, fel bwrdd lleihau aildroseddu De Orllewin Lloegr sy'n dod â'r PCCau, y gwasanaeth prawf a phartneriaid eraill at ei gilydd mewn fforwm cydweithredol. Byddwn yn parhau i gefnogi partneriaid wrth weithio ar draws yr ôl troed rhanbarthol hwn.

77. Un o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar waith partneriaeth oedd posibilrwydd comisiynu lleol a chydgomisiynu. Roedd hyn yn amlygu'r angen i sicrhau bod gwybodaeth gref am wasanaethau lleol a gofynion defnyddwyr gwasanaethau ar gael er mwyn cyfrannu at y gwaith comisiynu. Rydym yn cydnabod bod angen ymateb i anghenion lleol ac mae'n rhaid i'r gwasanaeth prawf fod yn ymwneud yn weithredol â phartneriaid a phartneriaethau er mwyn cyflawni hynny.

78. Bydd gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol, eu huwch dîm rheoli a'r Unedau Cyflawni Lleol gyfrifoldeb clir dros gryfhau'r ymgysylltiad â phartneriaethau lleol a rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o dryloywder ynghylch perfformiad y gwasanaeth prawf, bod gwasanaethau'n ymateb i flaenoriaethau lleol, a bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i gydgomisiynu'r gwasanaethau hynny sy'n allweddol i leihau aildroseddu, gyda phartneriaid fel PCCau, awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd.

79. Bydd cael un pwynt cyswllt ac arwain ar gyfer rheoli troseddwyr yn yr NPS ac ar lefel ranbarthol yn golygu cydlyniad gwell wrth gyflawni gwasanaethau gan bartneriaid er mwyn helpu i atal aildroseddu (ee iechyd meddwl, triniaethau cyffuriau, tai, budd-daliadau) gydag un llais prawf mewn cyfarfodydd partneriaeth lleol. Byddai Cyfarwyddwyr Prawf yn darparu pŵer cynnull ar draws llwyth achosion y rhanbarth ac yn sicrhau parhad rhwng y carchar a'r gymuned.

80. Rydym yn bwriadu recriwtio Cyfarwyddwyr Rhanbarthol ar gyfer yr un ar ddeg rhanbarth a bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod 2019 gyda'r nod o gadarnhau'r swyddi hyn erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o siapio a chefnogi'r gweithgareddau newid a'r newid mewn busnes.

81. Bydd hi'n bwysig sicrhau ein bod yn cael y model arwain yma'n iawn. Byddwn yn meddwl yn ofalus am gyfrifoldebau penodol y swyddi hyn i sicrhau bod gan yr arweinwyr hyn y strwythurau a'r galluoedd iawn i gyflawni ar draws y rhanbarthau. Bydd angen i'r arweinwyr hyn gael eu cefnogi i sicrhau eu bod nhw a'u timau'n meddu ar y galluoedd masnachol iawn a byddwn yn datblygu prosesau a thargedau clir i sicrhau ein bod yn defnyddio darparwyr ehangach yn llawn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda staff a rhanddeiliaid ehangach i baratoi ar gyfer cyflwyno'r swyddi hyn. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio sicrhau bod hunaniaeth a diwylliant a rennir ymysg holl staff yr NPS, gan adeiladu ar brofiadau'r rheini sydd wedi gweithio yn yr NPS a'r CRCau dros y blynyddoedd diwethaf.

82. Rydym wedi ymgysylltu â PCCau ynghylch sut bydden nhw'n gallu cefnogi gwasanaethau prawf yn fwy effeithiol yn y dyfodol a sut gall y gwasanaeth prawf weithio'n well gyda nhw er mwyn ymgysylltu â'r systemau cyfiawnder troseddol lleol.

Mae arnom eisiau gweld Cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn gweithio gyda PCCau er mwyn canfod blaenoriaethau strategol a rennir, gyda disgwyliad y byddent yn chwilio am gyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd sy'n cefnogi atal aildroseddu. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn ystyried sut mae modd rhannu data am berfformiad ac anghenion prawf mewn ffordd ystyrlon ar lefel leol. Pan fo'n briodol, bydd PCCau hefyd yn cael eu cynrychioli yn ystod y broses recriwtio ar gyfer y swyddi Cyfarwyddwyr Rhanbarthol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â PCCau i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gallu manteisio ar eu rôl sy'n datblygu mewn systemau cyfiawnder troseddol lleol.

83. Yn ogystal â'n gwaith gyda PCCau ac fel rhan o'n hymrwymiad i ddylunio trefniadau prawf ar y cyd yn Llundain ac ym Manceinion Fwyaf, rydym wedi bod yn ymwneud â MOPAC a GMCA i brofi ein syniadau dylunio a lle gallai fod angen teilwra trefniadau, fel cydgomisiynu. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn i sicrhau ein bod yn ystyried eu tirweddau a'u cytundebau datganoli unigryw yn llawn, a byddwn yn mynd ati gyda rhanbarthau eraill i weld sut gallwn gydweithio i gomisiynu a darparu ymyriadau.

84. Rydym yn bwriadu defnyddio'r strwythurau rhanbarthol newydd i brofi ffyrdd arloesol o gomisiynu er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau cymdeithasol trawsbynciol sy'n allweddol i leihau aildroseddu ac sy'n cyd-fynd â'r dirwedd ehangach o wasanaethau sy'n eistedd ochr yn ochr â'r gwasanaeth prawf. Er mwyn i ni allu gwneud hyn byddwn yn clustnodi arian yn y gyllideb prawf gyffredinol gyda'r nod o ddenu arian cyfatebol gan adrannau eraill y llywodraeth neu gyrff comisiynu gan gynnwys darparwyr cyllid cymdeithasol a Byrddau Effaith Gymdeithasol. Bydd yr arian yn cael ei gadw ar gyfer dulliau gweithredu arloesol a thrawsbynciol a bydd yn ein galluogi i brofi 'prawf o gysyniad' gwasanaethau cyn eu cynyddu. Bydd hyn yn gyfle i Gyfarwyddwyr Rhanbarthol feithrin cydweithrediad ar draws y system cyfiawnder troseddol yn eu hardal er mwyn lleihau aildroseddu drwy fabwysiadu dulliau gweithredu lleol. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae hi'n bwysig bod pob grŵp o droseddwyr – gan gynnwys troseddwyr agored i niwed fel y rheini sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol – yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n ceisio rhoi canlyniad cyfatebol iddynt. Mae'n bosibl i waith partneriaeth gwell a ffyrdd newydd o gomisiynu alluogi mwy o gefnogaeth gydgysylltedig ar gyfer grwpiau sy'n wynebu gwahaniaethau yn eu canlyniadau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

85. Mae gwasanaethau prawf yn gweithio orau pan fydd partneriaid lleol yn canolbwyntio ar waith lleihau aildroseddu gyda'i gilydd. Byddwn yn ceisio llunio trefniadau lleol a fydd yn rhoi rôl uniongyrchol i bartneriaid, fel awdurdodau lleol a PCCau yn y gwaith o gomisiynu gwasanaethau gyda'r NPS. Gallai hyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ar draws y system cyfiawnder troseddol a mynd i'r afael yn well â'r anghenion cymhleth sy'n aml yn gysylltiedig ag aildroseddu fel camddefnyddio cyffuriau, digartrefedd a chysgu ar y stryd, a materion iechyd meddwl (ac sy'n gallu llesteirio cwblhau ein gwasanaethau prawf craidd yn llwyddiannus).

86. Mae nifer o raglenni eisoes ar waith yn lleol sy'n mynd ar drywydd canlyniadau ar y cyd drwy waith amlasiantaethol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr Ymagwedd System Gyfan ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod lle mae'r heddlu ym Manceinion

Fwyaf, gyda'r CRC a nifer o asiantaethau eraill, wedi buddsoddi mewn model i roi ymateb cyfannol i droseddwyr sy'n fenywod a menywod sydd mewn perygl o droseddu. Yn Essex mae Full Circle yn cynnig gwasanaeth llywio gofal cwbl integredig i droseddwyr sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r model cyflawni amlasiantaethol (sydd wedi'i ariannu gan amrywiaeth eang o bartneriaid) wedi cyflawni rhai canlyniadau cadarnhaol gan gynnwys gwelliannau mewn sefyllfaoedd tai, cymryd meddyginiaeth, llai o dderbyniadau i ysbytai am faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

87. Mae'n bosibl profi'r dull gweithredu yma drwy adeiladu ar ddulliau comisiynu sy'n fwy aeddfed sydd eisoes ar waith, ac rydym yn bwriadu datblygu'r dystiolaeth o effaith y gwariant hwn ar ganlyniadau cymdeithasol ehangach cyn ceisio cynnig unrhyw ddull gweithredu ar raddfa fwy. Bydd y gwaith yma yn sylfaen i allu’r Cyfarwyddwr Rhanbarthol i lwyddo a bydd yn galluogi'r amgylchedd a'r lefelau iawn o gefnogaeth ar gyfer cyflawni dedfryd yn ogystal ag ymataliad tymor hir ar ôl gorffen y ddedfryd.

## System brawf sy'n gweithio i Gymru

88. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, bwriad ein cynigion yng Nghymru ydy adeiladu ar y strwythurau sydd eisoes wedi cael eu sefydlu i adlewyrchu’r trefniadau partneriaeth gwahanol sy’n deillio o ddatganoli. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) yn cydnabod bod un awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae’n rhestru'r materion cyfiawnder sydd wedi cael eu cadw gan Senedd y DU, gan gynnwys rheoli troseddwyr. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â materion datganoledig gan gynnwys iechyd, tai, lles cymdeithasol ac addysg, ac mae hyn yn golygu bod tirwedd cyflawni gwahanol ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru.

89. Mae HMPPS yng Nghymru wedi'i ffurweddu'n wahanol i adlewyrchu hyn, gyda'i strwythur yn cyfuno gwasanaethau carchardai a phrawf mewn un gyfarwyddiaeth ac aliniad yn yr ardal ddaearyddol, gyda'r adran NPS gyfredol yn rhannu ffiniau gyda darpariaeth dan gontract. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y trefniadau cryf hyn i weithredu ein strategaeth i'r dyfodol yng Nghymru, a fydd, fel y nodir yn ein cynigion, yn golygu bod y cyfrifoldeb dros wasanaethau rheoli troseddwyr yn perthyn i'r NPS. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau ychwanegol ar dendr er mwyn i amrywiaeth o ddarparwyr a mudiadau sector gwirfoddol allu cystadlu i'w darparu.

90. Ers yr ymgynghoriad, mae HMPPS yng Nghymru wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y PCCau a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru i sicrhau ein bod yn cofnodi'r ffordd orau o sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyflawni'r amcanion rydym yn eu rhannu a sut maent yn cyd-fynd â threfniadau cyfredol. Rydym yn ystyried y dirwedd yng Nghymru, gan gynnwys ystyried deddfwriaeth Cymru, yr iaith Gymraeg a blaenoriaethau eraill a nodwyd yn ein gwaith dylunio hyd yma. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio lleihau faint o ddyblygu sydd mewn gwasanaethau cyfredol a byddwn yn annog partneriaid i ddylunio, i ddatblygu, i gomisiynu ac i gyflawni mewn ffordd integredig. Rydym wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r farchnad yng Nghymru a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid posibl er mwyn i ni fireinio ein cynigion.

## Gweithlu sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn

91. I nifer, mae'r gwasanaeth prawf yn broffesiwn galwedigaethol gyda nifer o staff yn treulio eu gyrfa i gyd yn y proffesiwn. Mae ymarferwyr prawf wedi gweithio'n galed i ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer eu rôl ac mae staff prawf bob dydd yn gweithio'n hollol broffesiynol ac i bwrpas gan reoli ystod eang o risg a chyfrifoldebau personol.

92. Nid ydy proffesiynoldeb staff prawf mewn unrhyw amheuaeth o gwbl; fodd bynnag rydym eisiau achub ar y cyfle yma i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn cael ei gydnabod fel proffesiwn gan eraill yn yr un ffordd â nyrsys, meddygon a gweithwyr cymdeithasol. Mae sicrhau'r nifer iawn o staff gyda'r lefel iawn o sgiliau ac arbenigedd yn allweddol i gyflawni gwasanaeth o ansawdd ac mae arnom eisiau sicrhau bod staff yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn parhau â'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae arnom eisiau sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi i allu ymateb i newidiadau parhaus yn eu llwythi achos ac addasu i newidiadau mewn technoleg a datblygiadau ehangach.

93. Yn Adroddiad Blynyddol mis Mawrth 2019 Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP), nododd y Fonesig Glenys Stacey "nad oedd y trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer y proffesiwn yn gweithio'n ddigon da"; er bod hyfforddiant ar gael i'r rhan fwyaf o staff, roedd heriau o ran cael digon o amser ar ei gyfer neu o ran cael gafael ar hyfforddiant difyr[17]. Nododd, o dan y trefniadau cyfredol, "nid oes unrhyw ofynion ar draws y proffesiwn sy'n mynnu bod gweithwyr prawf proffesiynol yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau"[18]. Yn yr adroddiad, fe gyflwynodd yr achos y dylai'r cyfrifoldebau dros ardystio a chofrestru gweithwyr prawf proffesiynol fod gan gorff annibynnol ac fe nododd bwysigrwydd cael sicrwydd ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus digonol.

94. Rydym yn bwriadu mynd ymhellach na'r hyn roeddem wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad, a chyn gynted ag y bydd amser yn y senedd yn caniatáu, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i weithredu fframwaith rheoliadol proffesiynol statudol ar draws y system prawf gyda safonau datblygu proffesiynol parhaus a fframwaith ymarfer a moesegol ar gyfer rolau penodol. Drwy weithredu'r fframwaith yma, rydym yn anelu at sicrhau bod staff sydd â chymwysterau addas yn cael eu cefnogi i ennill yr offer a'r cyfleoedd ar gyfer gyrfa hir ac effeithiol. Cyn y ddeddfwriaeth, byddwn yn cyflwyno gofynion i sicrhau bod yr holl elfennau mewn lle gennym ni yn barod i hyn ddod yn ofyniad statudol. Bydd yr amserlenni ar gyfer gweithredu hyn yn cael eu datblygu ochr yn ochr â blaenoriaethau adrannol ehangach.

95. Yn 2018, fe ddaethom i gytundeb gyda'r Undebau Llafur (NAPO, Unsain a GMB SCOOP) ar foderneiddio tâl yn yr NPS. O dan y cytundeb hwn, byddwn yn gweithio

17 Adroddiad blynyddol HMIP, t 72, Mawrth 2019 - https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/HMI-Probation-Chief-Inspectors-Report.pdf

18 Adroddiad blynyddol HMIP, t 76, Mawrth 2019 - https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/03/HMI-Probation-Chief-Inspectors-Report.pdf

gyda'n cydweithwyr Undebau Llafur i gyflwyno Fframwaith Datblygiad Cyflog ar Sail Cymwyseddau sy'n ystyried yr ystod lawn o briodoleddau, sgiliau a phrofiad sydd ei hangen i gyflawni cymhwysedd prawf proffesiynol ac sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer holl staff yr NPS.

96. Mae'r fframwaith proffesiynol statudol yn gyfle i hyrwyddo proffesiynoldeb y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf - gan ddarparu tystiolaeth o ddysgu gydol oes a gan ddangos bod ein staff yn arbenigwyr yn ein maes. Byddant hefyd yn diogelu'r teitl prawf i ymarfer yn ogystal â sicrhau nad oes gan y rheini nad ydynt yn addas i ymarfer hawl i weithio yn y system prawf. Bydd hyn yn cynyddu'r hyder gan randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd ac mae'n gyfle i ganolbwyntio ar ddatblygu ein harfer a'n gwybodaeth i sicrhau ein bod yn cefnogi troseddwyr ac yn rheoli risg yn fwy effeithiol mewn caethiwed ac yn y gymuned.

97. Mae'r cynnig proffesiynol wedi'i anelu at fod o fudd i'r holl staff sy'n gweithio yn y maes prawf drwy sicrhau bod safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a fframweithiau ymarfer ar gyfer rolau gwahanol ar draws amgylcheddau gweithleoedd gwahanol gan roi'r gydnabyddiaeth allanol i staff eu bod yn weithiwr proffesiynol sy'n ymarfer. Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad proffesiynol parhaus staff prawf gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wella ac i ddatblygu ansawdd eu hymarfer.

98. Yn y dyfodol byddwn yn gofyn i'r holl staff sy'n gweithredu fel Swyddogion Cyfrifol fod â chymhwyster prawf gorfodol. Byddai hyn yn lefel 3 ar gyfer staff sy'n gweithio fel Swyddog Gwasanaeth Prawf, neu'n Lefel 5 ar gyfer staff sy'n gweithio fel Swyddog Prawf. Rydym hefyd ar ganol datblygu'r cymwysterau hyn i fod yn brentisiaethau.

99. Fel rhan o'r newidiadau hyn rydym wedi ymrwymo i ddull gweithredu sy’n pwysleisio cydraddoldeb yn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus sy’n cael ei gynnig (gan gynnwys hyfforddiant penodol ar weithio gyda throseddwyr sy’n fenywod) ac sy’n canolbwyntio ar amrywiaeth y gweithlu – gan gynnwys dyheadau a chynlluniau i symud grwpiau a dangynrychiolir i swyddi rheoli ac arwain uwch.

## Gwella perfformiad

100. Mae lleihau cyfraddau aildroseddu, rheoli risg a diogelu'r cyhoedd yn fesurau allweddol ar gyfer canlyniadau ac allbynnau i'r gwasanaethau prawf. Fel roedd nifer o’r rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn ei gydnabod, mae effaith ffactorau cymdeithasol ac economaidd allanol yn ei gwneud hi’n anodd sefydlu cysylltiad achlysurol uniongyrchol rhwng gwaith prawf a llai o aildroseddu. Wrth ddatblygu mesurau perfformiad allweddol, bu ffocws go iawn ar sut gall gwaith prawf gefnogi llai o aildroseddu. Bydd cyfradd ac amlder aildroseddu yn parhau i fod yn fesur ar gyfer gwaith prawf.

101. Soniodd ymatebwyr am bwysigrwydd iechyd, cyflogaeth a llety cynaliadwy gwell i gefnogi lleihau aildroseddu, ac rydym yn datblygu mesurau ar y cynnydd cadarnhaol sydd wedi cael ei gyflawni yn y meysydd hynny. Mae helpu troseddwyr i wella eu hiechyd, rhagolygon swydd a thai yn galw am gydweithrediad effeithiol gydag asiantaethau eraill ac rydym yn cynnwys hyn yn ein trefniadau comisiynu a darparu rhanbarthol. Byddwn yn dysgu, er enghraifft, o'r gwaith partneriaeth sydd wedi cael ei ddatblygu gan y pum ardal sy'n treialu'r Protocol ar gyfer Triniaethau Dedfryd Cymunedol i wella mynediad at driniaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i droseddwyr sydd ar ddedfrydau cymunedol.

102. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod angen i wasanaethau ac ymyriadau fod o ansawdd uchel os ydynt am ymgysylltu â throseddwyr, cyflawni canlyniadau a chefnogi troseddwyr i weddnewid eu bywydau. Roedd y ffocws ar hyn yn y mesurau perfformiad allweddol yn cael cefnogaeth gref. Rydym yn datblygu mesurau ansawdd penodol a fydd yn ein galluogi i asesu ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob darparwr. Bydd gwaith craffu allanol gan HMIP ac archwilio mewnol gan HMPPS yn asesu ansawdd. Ar gyfer darparwyr dan gontract, bydd asesiadau ansawdd yn gysylltiedig â chymhellion ariannol.

103. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu bod angen i bob troseddwr gael cynllun dedfryd personol a dull gweithredu wedi'i deilwra, gan ystyried anghenion troseddegol ynghyd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn disgwyl y bydd ein cynigion ar gyfer y fframwaith deinamig yn golygu bod modd comisiynu gwasanaethau ar lefel leol a chaniatáu datblygu partneriaethau lleol. Gallai'r gwasanaethau hyn er enghraifft gynnwys ymyriadau arbenigol ar gyfer menywod, neu gallent hwyluso partneriaethau gwell rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn mynd ati'n well i gyflawni dulliau gweithredu sy'n diwallu anghenion amrywiol pobl sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf.

104. Lle mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiadau ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft yn y Strategaeth ar gyfer Troseddwyr sy'n Fenywod ac mewn ymateb i Adolygiad Lammy, byddwn yn ceisio cynnwys yr ymrwymiadau mewn contractau yn y dyfodol. Ar gyfer grwpiau agored i niwed neu flaenoriaeth eraill byddwn yn sefydlu asesiad sy'n fwy cyson o anghenion drwy offer sgrinio ac asesu iechyd.

105. I wneud hyn yn iawn, byddwn yn adolygu'r data a fydd yn cael ei gasglu gan yr NPS ac unrhyw ddarparwyr a fydd dan gontract yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gennym wybodaeth glir ar y canlyniadau ar gyfer troseddwyr i helpu i gyfrannu at ddarparu a chomisiynu yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn trawsnewid sut rydyn ni'n defnyddio technoleg mewn gwasanaethau prawf, gan fuddsoddi mewn strategaeth data a digidol a fydd yn disodli systemau craidd ac yn defnyddio data'n well er mwyn cefnogi crebwyll proffesiynol.

106. Mae aildroseddu yn costio tua £15b i gymdeithas bob blwyddyn. Dim ond drwy ymdrech ar y cyd ar draws Llywodraeth byddwn ni'n gallu lleihau aildroseddu. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi sefydlu Bwrdd Lleihau Aildroseddu trawslywodraethol i fynd i'r afael â rhai o brif achosion aildroseddu gan gynnwys cyflogaeth, iechyd a llety.

107. Bydd y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn. Yn bresennol bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet, Trysorlys EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddfa Cymru.

# Ymatebion i gwestiynau penodol

Gyda'i gilydd cafwyd 476 o ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad 'Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder'. Roedd pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad wedi cael ei fframio fel cwestiwn testun agored er mwyn i'r ymatebwyr allu rhoi adborth. Nid oedd yr holl ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn. Wrth adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi ceisio nodi themâu cyffredin - fodd bynnag nid oedd hi'n bosibl codio'r holl themâu a godwyd, felly dim ond dangosol ydy'r cyfrannau a roddir. Gan fod ymatebion yn gallu perthyn i fwy nag un cod, ni fyddai'r gwerthoedd ar draws ymatebion yn rhoi 100%.

Mae'r holl ddyfyniadau'n ddienw ac yn cael eu neilltuo i'r categori o ymatebwyr fel y nodir yn yr ymateb perthnasol i'r ymgynghoriad.

**Goruchwylio troseddwyr a rhoi dedfryd y llys ar waith**

**C1: Pa gamau allwn eu cymryd er mwyn gwella dilyniant goruchwyliaeth drwy gydol dedfryd troseddwr?**

> "Yn anochel bydd parhau i rannu swyddogaethau rheoli troseddwyr ar draws dau sefydliad gwahanol yn arwain at hollti parhad goruchwylio troseddwyr. Ar ben hynny, ac ystyried y model cyfredol ac arfaethedig ar gyfer rheoli risg gan gynnwys trosglwyddo troseddwyr o'r CRC i'r NPS ar ôl uwchgyfeirio risg, mae posibilrwydd cael diffyg parhad ar yr union adeg pan fyddai'r troseddwr yn elwa o gysondeb. ... O'r herwydd er mwyn gwella parhad goruchwylio drwy gydol dedfryd troseddwr dylid symud i system lle mae un sefydliad yn gyfrifol am reoli / gorchwylio'r troseddwr; y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

> "Cyfuno NPS a CRCau i greu un gwasanaeth yn y sector cyhoeddus. Mae'r trefniadau presennol ac arfaethedig wedi rhannu goruchwyliaeth mewn ffordd ddi-fudd ac aneffeithlon, sy'n dyblygu ymdrech a bylchau mewn gwybodaeth gan amharu ar weithrediadau'n ddifrifol."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

Roedd 378 wedi ymateb i'r cwestiwn yma. Y thema fwyaf gyffredin a godwyd gan yr ymatebwyr oedd manteision cadw un Rheolwr Troseddwyr drwy gydol y ddedfryd, gyda dros 35% o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at hyn yn benodol. Roedd cyfran lai, tua 20%, yn galw am ragor o gyfleoedd i Reolwyr Troseddwyr ymgysylltu mewn gwaith adsefydlu gyda throseddwyr. Roedd cyfran debyg wedi nodi pwysigrwydd cysylltiadau a chyswllt gwell gyda charchardai sydd â throseddwyr sy'n cyflawni rhan caethiwed eu dedfryd er mwyn cefnogi cynllunio dedfryd yn effeithiol.

Roedd thema drawsbynciol mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod angen integreiddio'r cyfrifoldebau rheoli troseddwyr i un sefydliad fel yr unig ffordd o gyflawni cysondeb, gydag oddeutu 15% o'r ymatebion yn codi hyn. Roedd ymatebion poblogaidd eraill yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau llwythi achos mae modd eu rheoli a phwysigrwydd cyswllt wyneb yn wyneb.

**C2: Beth yw'r amledd cyswllt rhwng troseddwyr a rheolwyr troseddwyr sydd fwyaf effeithiol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu pwrpasol? Ym mha ffordd ddylai hynny amrywio yn ystod cyfnod o oruchwyliaeth, ac o dan pa amgylchiadau y mae dewisiadau amgen i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn briodol?**

> "Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o ymweliadau rheolaidd ac yn croesawu'r gofyniad sylfaenol o gyswllt wyneb yn wyneb bob mis. Fodd bynnag, ni fydd perthynas fisol yn creu newid; ar ddechrau'r berthynas, mae angen i'r cyswllt fod yn bwrpasol ac yn fwy rheolaidd. Er bod cyswllt rheolaidd yn rhan hanfodol o feithrin perthynas rhwng y swyddog a'r troseddwr, y parhad a'r ymddiriedaeth yn y berthynas hon ydy'r prif ffactor. Mae angen i grebwyll proffesiynol ynghylch amlder y cyswllt barhau i fod yn ffactor mewn unrhyw ystyriaethau ynghylch rhagor o ganllawiau am amlder. Mae angen i'r ddarpariaeth gwasanaeth gael ei fframio mewn fframwaith o ymweliadau o ansawdd, yn hytrach nag amlder."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Awdurdod Lleol**

> "Yn fy marn i mae hyn wir yn dibynnu ar yr unigolyn a'i anghenion penodol. Mae rhoi llawer o sylw ar y cychwyn bob amser yn gweithio'n dda o'm profiad i, hy cael y cyswllt mwyaf rheolaidd ar ddechrau'r ddedfryd, gan leihau hynny'n raddol dros amser mewn ymateb i ostyngiadau mewn risg. Mae bod yn ymatebol yn bwysig dros ben, hy gallu mynd yn ôl i adrodd wythnosol pan fydd angen..."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

Roedd 368 o ymatebion i ran gyntaf y cwestiwn yma a 332 i'r ail.

Ar y cwestiwn cyntaf, roedd yr ymateb mwyaf gan dros 50% o'r ymatebwyr yn datgan y dylid gallu amrywio amlder y cyswllt wedi'i bennu gan asesiad trwyadl o'r risg a'r anghenion, gyda bron i 30% o'r ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r cyswllt amrywio drwy gydol oes y ddedfryd, ac y dylai hynny ddibynnu ar grebwyll proffesiynol y swyddog prawf. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ymchwil sy'n datgan bod angen meithrin perthynas waith gynhyrchiol drwy gyswllt cychwynnol rheolaidd ond bod hyn yn gallu lleihau os ydy'r risgiau'n cael eu rheoli a bod yr anghenion yn cael sylw. Awgrymodd dros 40% y dylai'r cyswllt fod yn wythnosol.

Ar ail ran y cwestiwn, roedd yr ymatebion yn amrywio ac yn cydnabod bod amrywiaeth o fathau o gyswllt yn briodol yn amodol ar yr amseru yn nedfryd y troseddwr ac asesiad proffesiynol o'r risg. Dywedodd dros 40% y dylid cael cyswllt wyneb yn wyneb fel mater o drefn, ac y gallai hyn ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau. Dywedodd tua un rhan o

dair o'r ymatebion y gallai goruchwylio dros y ffôn fod yn ddefnyddiol mewn rhai sefyllfaoedd. Dywedodd tua 30% o'r ymatebion y dylai'r cyswllt amrywio yn amodol ar ostyngiad mewn risg neu angen, gyda bron i 20% o'r ymatebwyr yn awgrymu y gellid lleihau'r cyswllt tua diwedd dedfryd fel rhan o'r gwaith o baratoi troseddwr am fywyd heb oruchwyliaeth.

### C3: Sut allwn hyrwyddo cynlluniau gwaith di-dâl sydd yn gwneud iawn â’r gymuned ac yn arfogi troseddwyr â sgiliau a phrofiadau sy’n gysylltiedig â gwaith?

> “Dylid defnyddio Gwaith Di-dâl/Gwneud Iawn â'r Gymuned yn ehangach (os bydd tariff y drosedd yn caniatáu) a gwneud defnydd gwell o'r elfen 20% o amser a ddyrennir ar gyfer dysgu a datblygu adsefydlu i'r troseddwr. Dylai troseddwyr weld Gwneud Iawn â'r Gymuned fel cosb A chyfle i adsefydlu, felly dylai Gwneud Iawn â'r Gymuned gynnwys nodau cyflogaeth (i droseddwyr di-waith) lle caiff cyflogwyr lleol eu hannog i gynnig lleoliadau gwaith di-dâl go iawn (fel y ddedfryd Gwneud Iawn â'r Gymuned go iawn) ac wedyn swydd ar ddiwedd y ddedfryd Gwneud Iawn â'r Gymuned oherwydd bod y lleoliad wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau ac agwedd y troseddwr...”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Aelod o staff y system cyfiawnder troseddol**

> “Drwy wneud cymunedau'n fwy ymwybodol o'r cynlluniau sydd ar waith yn eu hardal nhw a pha waith sydd wedi cael ei wneud er budd y gymuned. Annog cymunedau lleol i ddod o hyd i brosiectau a fyddai o fudd i'w hamgylchedd ac i fywydau pobl. Sicrhau bod prosiectau'n galluogi troseddwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogaeth a chael profiad gwaith gwerth chweil...”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Academydd**

Roedd 353 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y pwynt mwyaf poblogaidd a gafodd ei wneud yn canolbwyntio ar yr angen i gynyddu faint o hyfforddiant a chymwysterau sgiliau sydd ar gael fel rhan o'r gorchymyn Gwaith Di-dâl. Roedd tua un rhan o dair o’r ymatebwyr wedi sôn am y thema yma. Roedd themâu eraill yn cynnwys yr angen i wella cysylltiadau at gyflogwyr a phrentisiaethau, a sicrhau bod lleoliadau o fudd i'r ardal leol ac i'r gymuned (tua 20% o'r ymatebion ar gyfer pob un). Ochr yn ochr â hyn roed cyfran lai ond sylweddol wedi awgrymu y gellid sefydlu cydweithrediad gwell gyda gwasanaethau lleol eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol.

### C4: Pa newidiadau ddylem eu gwneud i drefniadau goruchwylio ôl-ddedfryd er mwyn eu gwneud yn fwy cymesur a gwella deilliannau adsefydlu?

> “Mae asesiad priodol unwaith eto yn bwysig ond canolbwyntio ar sicrhau llety a chyflogaeth sy'n allweddol. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn i garcharorion fabwysiadu ffordd o fyw heb droseddu. Bydd yn rhaid i oruchwylwyr prawf weithio'n agos gyda'r sectorau gwirfoddol a phreifat er mwyn cyflawni hyn - ond mae'n hanfodol.”

**Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

> "Y peth cyntaf i'w nodi ydy ar gyfer yr holl heriau sy'n gysylltiedig â'i ddehongli a'i weithredu, mae PSS wedi bod yn llwyddiannus i nifer o gleientiaid. ... Er mwyn cefnogi mwy o adsefydlu drwy gyflawni PSS, mae'n rhaid gwella faint o gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i fynd i'r afael ag anghenion unigol defnyddiwr gwasanaeth."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

Roedd 353 o ymatebion i Gwestiwn 4. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio ar draws y themâu a godwyd ac nid oedd hi'n hawdd categoreiddio cyfran fawr o'r ymatebion. Awgrymodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr fod angen sicrhau bod yr ymyriadau a'r adnoddau iawn ar gael i fynd i'r afael ag anghenion. Roedd themâu allweddol eraill yn cynnwys awgrymiadau y dylid diddymu Goruchwyliaeth Ôl-ddedfryd (PSS), ac y dylai'r cyswllt fod yn wirfoddol heb unrhyw sancsiynau am beidio ag ymgysylltu. Roedd y themâu eraill a godwyd yn cynnwys amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer gwneud PSS yn fwy cymesur i'r risg a'r anghenion a aseswyd a sut roedd delio â'r system ar gyfer torri amodau, ochr yn ochr ag awgrymiadau ar gyfer dulliau gweithredu gwahanol, ar sail trawma, iechyd cyhoeddus a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a defnyddio mwy o gefnogaeth defnyddwyr gwasanaeth/cymheiriaid.

**C5: Pa gamau eraill fyddem yn eu cymryd er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd cyngor cyn-dedfrydu a sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau darparwyr prawf?**

> "...mae rhannu'r gwasanaeth wedi lleihau eglurder a natur benodol y cyngor a geir gan yr NPS (awduron adroddiadau llys) am wasanaethau darparwyr (CRC) eraill. Yn ddiau mae'r potensial am gamgymeriadau a chyfathrebu anghywir wedi golygu bod dedfrydwyr wedi colli hyder ynghylch dewisiadau dedfrydu. ... Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd (ee grwpiau defnyddwyr llys, cyfarfodydd cyswllt) a chyfathrebu rhwng dedfrydwyr a darparwyr gwasanaeth yn allweddol er mwyn deall a sicrhau hyder mewn dedfrydau cymunedol."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

> "Dylid disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu'n eang â phartneriaid a darparwyr gwasanaethau yn y cymunedau. Mae sbardunwyr cyffredin sy'n effeithio ar droseddu fel tai, tlodi, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, felly dylid achub ar bob cyfle i archwilio sut gellir lliniaru hyn drwy ddull gweithredu cyfannol ar gyfer darparu gwasanaethau. Byddai hyn yn meithrin hyder yn y farnwriaeth ac yn dylanwadu ar y gofynion dedfrydu/goruchwylio terfynol a all gael effaith fwy ar adsefydlu."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Awdurdod Lleol**

Roedd 379 o ymatebion i Gwestiwn 5. Roedd dros un rhan o dair yn awgrymu y dylid rhoi mwy o amser i baratoi adroddiadau cyn-dedfrydu, ac awgrymodd tua 15% y dylid dileu targedau ar gyfer darparu adroddiadau ar yr un diwrnod. Soniodd nifer o'r ymatebion fod y

pwysau ar yr NPS i gynhyrchu adroddiadau ar y diwrnod yn cael effaith fawr ar ansawdd yr asesiad ac yn arwain at ddedfrydau amhriodol.

Roedd thema allweddol arall yn ymwneud ag ansawdd y berthynas rhwng y llys a'r gwasanaethau prawf - roedd tua chwarter yn awgrymu y gallai gweithdai neu hyfforddiant gefnogi trefniadau cyswllt gwell rhwng y sefydliadau, ac roedd tua un rhan o bump yn awgrymu y dylid darparu rhagor o wybodaeth i ddedfrydwyr am y gwasanaethau sydd ar gael.

**C6: Pa gamau allwn eu cymryd i wella ymgysylltu rhwng y llysoedd a CRC?**

> "Rhaid cyfathrebu'n fwy effeithiol os ydy dedfrydwyr am fod â hyder mewn Dedfrydau cymunedol. Ar hyn o bryd mae gennym sefyllfa lle mae staff Prawf mewn llysoedd yn edrych yn amhroffesiynol ac mae eu hygrededd yn cael ei danseilio oherwydd nad ydyn nhw'n aml wedi paratoi'n ddigonol ac nad oes ganddynt wybodaeth gywir a diweddar,"
> **Ymateb i'r Ymgynghoriad, Dedfrydwr**

> "Byddai fforymau rheolaidd rhwng y farnwriaeth a'r gwasanaeth prawf yn golygu bod llysoedd yn deall gorchmynion cymunedol yn well a gallai staff prawf ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch sut mae penderfyniadau dedfrydu yn cael eu gwneud. Byddai deialog barhaus a hyfforddiant ar y cyd yn golygu bod modd meithrin perthynas waith agosach a fyddai maes o law yn arwain at gyflawni cyfiawnder yn gyflymach a bod y dedfrydau mwyaf priodol yn cael eu rhoi."
> **Ymateb i'r Ymgynghoriad, Grŵp ymgyrchu**

Roedd 388 o ymatebion i Gwestiwn 6. Roedd y nifer mwyaf o ymatebion, bron i 40%, yn awgrymu cyflwyno rôl swyddog prawf darparwr yn y llys, gyda nifer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at yr angen i wella'r cyfathrebu rhwng swyddog cyfrifol y CRC, swyddog llys yr NPS a'r llysoedd. Roedd tua un rhan o bump o'r rheini a gyflwynodd awgrymiadau'n cynnig darparu gwybodaeth dedfrydu neu bamffledi fel rhoi erthyglau a gwybodaeth CRC yng Nghylchlythyr yr NPS sydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer dedfrydwyr, gan fynnu bod CRC yn dod i gyfarfodydd Cyswllt Llys lle ceir cyfarfodydd, a gwella ymarfer gorfodi. Roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu bod llysoedd ond yn gweld pan fydd pethau'n mynd o chwith a sawl achos o beidio â gweithredu pan na chydymffurfir â gorchmynion. Yn drawsbynciol, cyfeiriodd bron i 35% o'r ymatebwyr at yr angen i ddatblygu cydweithio gwell rhwng gwasanaethau, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**C7. Ym mha ffyrdd eraill allwn ni atgyfnerthu hyder mewn dedfrydau cymunedol?**

> "Dylai 1 sefydliad ddarparu'r holl waith o reoli troseddwyr. Mae NPS a CRC ill dau wedi'i chael hi'n anodd rheoli achosion am amrywiaeth o resymau ond mae dal llwyth achosion amrywiol gydag achosion risg canolig ac uchel yn rhoi dealltwriaeth well o'r system cyfiawnder troseddol ac mae'n caniatáu dull gweithredu sy'n fwy cyfannol ar gyfer rheoli achosion. Mae hyn yn lliniaru straen ac undonedd rheoli math penodol o

achos, a byddai'r hyder ychwanegol hwn mewn staff yn cael ei adlewyrchu yng nghanfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth prawf.”
**Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

Roedd 350 o ymatebion i Gwestiwn 7 gydag amrywiaeth o ymatebion ar draws themâu gwahanol. Dywedodd tua 30% fod angen ymgysylltu'n well â´r cyhoedd a chefnogi dealltwriaeth well o ddedfrydu cymunedol ac amlygrwydd gwaith prawf. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o gynigion i rannu straeon 'newyddion da' i hyrwyddo effaith gadarnhaol ymyriadau adsefydlu a chosbi i gynigion am raglen allgymorth o ymgysylltu cymunedol.

Roedd amrywiaeth o ymatebion yn tynnu sylw at awgrymiadau unigol i wella hyder, fel gwella ansawdd y ddeialog gyda dedfrydwyr a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys darparu rhagor o adborth am effaith ymyriadau. Roedd ymatebion eraill yn sôn am ansawdd y ddarpariaeth gyfredol ac amrywiaeth, a hygyrchedd, yr ymyriadau sydd ar gael. Soniodd rhai am yr angen i newid y ffocws ar ansawdd y goruchwylio a phwysigrwydd staff medrus sy'n gallu ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Roedd adborth trawsbynciol yn yr ymateb yma hefyd yn awgrymu integreiddio’r gwasanaeth prawf i’r NPS, gan awgrymu bod gwaith anodd wedi cael ei wneud yn anoddach fyth drwy gael dau sefydliad

### Adsefydlu troseddwyr

### C8: Sut allwn sicrhau bod anghenion penodol a nodweddion bregus gwahanol gohortau o droseddwyr yn cael eu bodloni’n well gan y gwasanaeth prawf? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi eich cynigion?

“Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i allu darparu gwasanaethau pwrpasol i gohortau penodol o droseddwyr ac mae'n gallu eu teilwra ar gyfer grwpiau penodol. ... Mae hi'n hollbwysig bod darparwr y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â'r Rheolwr Troseddwyr. Er mwyn cefnogi cohortau penodol o droseddwyr yn well, wrth ddarparu gwasanaeth lleol, gall gwasanaethau prawf ddefnyddio'r sector gwirfoddol a sefydliadau llai i ddarparu ymyriadau arbenigol ar eu rhan.”
**Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

“Byddem yn dadlau y byddai un gwasanaeth prawf integredig, yn hytrach na'r rhaniad NPS/CRC cyfredol yn caniatáu dull gweithredu sydd â rhagor o adnoddau, cadernid a hyblygrwydd er mwyn gallu darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol ein cohortau o droseddwyr.”
**Ymateb i'r ymgynghoriad, Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Roedd 341 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yma yn amrywio, gyda nifer o awgrymiadau unigol ar gynigion. Roedd y thema amlycaf yn yr ymatebion yn canolbwyntio ar rôl dull gweithredu wedi'i deilwra a chynlluniau dedfrydu personol yn y broses o adnabod gwasanaethau i'w darparu'n briodol i gohortau gwahanol sy'n agored i niwed; gan ddefnyddio ‘dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn’.

Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at rôl gwasanaethau arbenigol neu bwrpasol i'w defnyddio, a lleoedd neu leoliadau priodol; er enghraifft, amgylcheddau i fenywod yn unig a lleoliadau gwaith di-dâl addas. Roedd rhai ymatebion o blaid timau neu wasanaethau arbenigol i ddarparu ar gyfer grwpiau agored i niwed, penodol, fodd bynnag roedd ymatebion eraill yn dadlau'r achos y gellir diwallu anghenion amrywiol yn fwy cyson petai gwasanaethau'r brif ffrwd yn ymatebol ac yn hyblyg fel mater o drefn.

Soniodd nifer o ymatebion am yr angen i sicrhau bod staff wedi'u harfogi â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn (mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol er enghraifft) er mwyn deall anghenion unigolion a chreu perthynas. Soniwyd am wella amrywiaeth y gweithlu ac, law yn llaw â hyn, defnyddio mentoriaid cymheiriaid/y rheini sydd â phrofiad personol sy'n ymgysylltu'n well, yn ogystal â chreu gweithlu sy'n fwy cynhwysol.

Roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar yr achos am fwy o gomisiynu lleol a chydgomisiynu er mwyn cael gafael ar sefydliadau a oedd naill ai'n arbenigwyr am weithio gyda grwpiau penodol, neu a oedd yn deall cyfansoddiad ac anghenion y boblogaeth leol. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol roedd ymatebion yn awgrymu bod angen rhywfaint o gyfrifoldeb i gefnogi datblygu gwasanaethau lleol a meithrin eu capasiti.

### Paratoi carcharorion ar gyfer bywyd yn y gymuned

### C9: Ym mha ffordd y dylai gwasanaethau adsefydlu i’r dyfodol fodloni’n well anghenion troseddwyr sydd wedi derbyn dedfrydau o garchar byr?

> “Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth yn awgrymu defnyddio mwy o ddedfrydau cymunedol a defnyddio llai o ddedfrydau o gyfnodau byr yn y carchar. Mae dedfryd o gyfnod byr mewn caethiwed yn amharu ar lety, ar gyflogaeth ac ar gysylltiadau teuluol. Maent yn ei gwneud hi'n anoddach darparu ymyriadau i fynd i'r afael â phroblemau cyffuriau, alcohol ac iechyd meddwl. Yn ail, mae nifer o'r gwasanaethau ailsefydlu sydd eu hangen ar bobl sy'n gadael carchar yn cael eu darparu gan asiantaethau ar wahân i'r gwasanaeth prawf (ee tai a gwasanaethau iechyd). Gall staff prawf ond ddod o hyd i lety a swyddi i garcharorion os ydy'r adnoddau hyn yn bodoli mewn cymunedau lleol a'u bod ar agor i bobl sy'n gadael carchar.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Academydd**

> “Y prif fater yma ydy diffyg buddsoddiad a dulliau gweithredu cydgysylltiol yn y gwasanaethau sy'n golygu bod ailsefydlu effeithiol yn bosibl. Er enghraifft, gyda llety, mae dedfrydau o gaethiwed tymor byr yn achosi llawer iawn o gynnwrf pan fydd unigolion yn colli eu tenantiaeth neu eu llety. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael carchar heb gartref sefydlog neu sy'n aros gyda ffrindiau. Maes o law, gall hyn gyfrannu'n sylweddol at ffordd o fyw anhrefnus sy'n arwain at fwy a mwy o ddedfrydau o gaethiwed tymor byr i'r unigolyn hwnnw.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

Roedd 350 o ymatebion i'r cwestiwn yma. Roedd nifer o ymatebion yn tynnu sylw at yr heriau yn y system bresennol ac yn gwahaniaethu rhwng awgrymu y dylid diddymu dedfrydau byr a'r ymatebion hynny a oedd yn awgrymu bod angen sicrhau mwy o ffocws ar lety, mynediad at gyflogaeth, budd-daliadau a chyngor ar ddyledion a gwasanaethau iechyd / camddefnyddio sylweddau er mwyn cefnogi'r troseddwr ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Roedd nifer o'r ymatebion hefyd yn sôn am yr angen i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer staff mewn carchardai a'r rheini yn y gymuned - gyda chyfathrebu ac ymgysylltu gwell, a sicrhau un cynllun ac un pwynt cyswllt ar gyfer troseddwyr sy'n symud o'r carchar i'r gymuned.

O ran y prif themâu, roedd ar nifer o'r ymatebwyr eisiau gweld diwedd ar ddedfrydau carchar byr neu lai ohonynt oherwydd eu heffaith ar denantiaeth, ar swyddi ac ar gysylltiadau teuluol pobl - teimlid y gellid cyflawni hyn drwy gryfhau dedfrydau cymunedol, dylunio model ailsefydlu sy'n ystyried ffyrdd o gynnal budd-daliadau, swyddi, tai yn ogystal â chaniatáu digon o amser i'r gwasanaeth prawf gyfeirio at wasanaethau a chynllunio'r rhyddhau.

Roedd adborth hefyd yn sôn am heriau cael gafael ar wasanaethau prif ffrwd yn ogystal â cheisiadau i alinio gwaith asesu adsefydlu ac ailsefydlu. Ochr yn ochr â hyn, roedd nifer o'r ymatebion wedi nodi'r angen i sicrhau bod atebolrwydd ar draws adrannau'r llywodraeth i sicrhau gwaith cydgysylltiol ar draws tai, mwy o fudd-daliadau a chefnogaeth i ddod o hyd i gefnogaeth i'r rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

### Gweithlu sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn

### C10: Pa sgiliau, hyfforddiant neu gymwysterau yr ydych yn credu sydd yn hanfodol ar gyfer swyddogion cyfrifol a awdurdodir i ddarparu gwasanaethau prawf, a sut ydych yn credu y mae’r rhain yn newid yn ddibynnol ar y mathau o droseddwyr y mae staff yn gweithio gyda nhw?

> “Y ffordd orau o roi sylw i'r cwestiwn ynghylch sgiliau a hyfforddiant ydy drwy gyfuno cyflogaeth yr holl swyddogion prawf cymwysedig mewn un sefydliad, HMPPS. Diben hyn fyddai sicrhau bod rheolaeth briodol dros nifer y staff cymwysedig sydd ar gael i gyflawni gofynion gweithrediadau'r NPS a CRC.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Aelod o staff y system cyfiawnder troseddol**

Roedd 340 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd dros un rhan o dair o'r ymatebwyr wedi nodi mai profiadau mewn bywyd a sgiliau rhyngbersonol oedd y prif briodoleddau y dylai Swyddog Prawf feddu arnynt. Roedd yr ymatebion hyn yn rhestru sgiliau fel empathi, sgiliau cymell, tosturi a deallusrwydd emosiynol. Soniodd nifer o ymatebwyr fod profiad o fywyd yn rhan bwysig o'r galluoedd ymarferol i reoli'r grŵp o gleientiaid, ac nad oedd deall theori ar ei ben ei hun yn ddigonol.

Fodd bynnag, dywedodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr fod gradd neu fath arall o gymhwyster ffurfiol yn hanfodol ar gyfer rôl y swyddog cyfrifol. Dywedodd cyfran debyg o'r

ymatebion fod angen hyfforddiant arbenigol i gefnogi gweithio gyda grwpiau penodol o gleientiaid - fel troseddwyr rhyw, drwgweithredwyr trais domestig ac iechyd meddwl.

Roedd y themâu eraill a godwyd yn cynnwys awgrymiadau nad ydy'r hyfforddiant presennol yn ddigonol a bod Swyddogion Cyfrifol yn amhrofiadol neu nad oes ganddynt ddigon o gymwysterau ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud o ganlyniad, ac awgrymiadau bod hyfforddiant neu sgiliau asesu risg yn hanfodol. Roedd y rheini a ddywedodd fod cymhwyster lefel gradd yn hanfodol yn gwneud hynny i awgrymu y dylid adfer y system recriwtio i sut roedd yn arfer bod, i fynd i'r afael â chanfyddiad o ddirywiad.

**C11: Sut fyddech yn gweld cofrestr broffesiynol genedlaethol yn gweithredu ar draws yr holl ddarparwyr - y sector cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys staff asiantaeth - a pha wybodaeth y dylai gynnwys?**

> "Syniad gwych. Byddai angen iddi gofnodi rolau a meysydd o arbenigedd. Bydd yn rhoi lefel o broffesiynoldeb i'r gwasanaeth prawf y mae nyrsys, gweithwyr cymdeithasol ac ati yn ei mwynhau a bydd yn arwain at yr angen i wella hyfforddiant a gwybodaeth - sydd bob tro'n beth da." **Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol.**
>
> "Mae ymarferwyr prawf yn gwneud penderfyniadau am ryddid unigolion ac mae'n rhaid iddynt ddangos llawer o grebwyll proffesiynol. Byddai cofrestr broffesiynol genedlaethol yn rhoi mwy o atebolrwydd a diogelwch (i'r staff ac i'r cyhoedd). Gallai fod yn fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gofnod o'r gweithwyr y pennwyd nad ydynt yn addas i ymarfer. Mae'n anghysondeb sydd wedi bodoli ers tro byd nad oes gan y gwasanaeth prawf system o reoleiddio proffesiynol sy'n cymharu â'r rheini sydd mewn nyrsio, gofal cymdeithasol ac addysgu er enghraifft." **Ymateb i'r ymgynghoriad, Academydd**

Roedd 307 o ymatebion i Gwestiwn 11. Roedd cefnogaeth eang ar gyfer y gofrestr, gyda dim ond 10% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu cofrestr yn benodol, gyda myfyrdodau bod hwn yn gam cadarnhaol i enw da proffesiynol y gwasanaeth prawf. Dywedodd tua 30% o'r ymatebwyr y dylai gofnodi cymwysterau a hyd gwasanaeth.

Roedd y themâu eraill a godwyd yn cynnwys awgrymiadau y dylai fod yn gofrestr sy'n debyg i'r un ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r gofrestr Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynnu bod swm penodol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn cael ei wneud bob blwyddyn er mwyn i'r rheini sydd ar y gofrestr gael cadw eu haelodaeth, ac roedd hyn yn rhywbeth roedd pobl hefyd yn ei gefnogi. Roedd yr ymatebion yn gweld hyn fel rhywbeth a fyddai'n codi safonau ac yn uno hyfforddiant a datblygiad ar draws gwasanaethau Prawf.

O ran y gwrthwynebiadau i'r gofrestr, roedd 10% yn credu nad oes angen cofrestr ac yn teimlo bod cael y cymhwyster prawf yn ddigon i'ch cymeradwyo i ymarfer ac na ddylid cael

haen ychwanegol i'ch cymeradwyo neu i'ch anghymeradwyo. Roeddent yn teimlo y byddai naill ai'n wastraff arian, yn anodd ei chynnal a'i chadw neu'n rhwystr i'w orchfygu.

### Gwella integreiddiad y system

### C12: A ydych yn cytuno bod newidiadau i strwythur ac arweinyddiaeth ardaloedd prawf yn ddigon i greu integreiddio ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau prawf?

> “Rwy'n credu ei bod hi'n anghywir cynnal y rhaniad preifat/cyhoeddus mewn Rheoli troseddwyr gan mai dyma lle rwyf yn gweld y mwyaf o rannu ac integreiddiad gwael. Gallai darparu ymyriadau aros gyda'r sector preifat/trydydd sector ond mae angen system unedig ac atebol arnom i reoli troseddwyr ar bob lefel risg.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

> “Rydym yn teimlo bod cryn rinwedd mewn alinio ffiniau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Rydym hefyd yn gefnogol iawn o'r cynnig i ddatblygu llinellau atebolrwydd cliriach ym mhob rhanbarth drwy benodi un uwch reolwr HMPPS i oruchwylio'r holl wasanaethau prawf yn y rhanbarth.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

Roedd 329 wedi ymateb i Gwestiwn 12. Nid oedd y gyfran fwyaf o ymatebion wedi darparu ateb ydw neu nac ydw, ond yn hytrach roeddent wedi rhannu arsylwadau ehangach o'r system bresennol. O'r prif themâu a nodwyd, roedd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr yn feirniadol o rannu gwasanaethau prawf rhwng darparwyr cyhoeddus a phreifat, gan gredu bod hyn wedi creu gwasanaeth darniog a diffyg atebolrwydd. Roedd nifer o'r ymatebion yn feirniadol oherwydd eu bod yn teimlo bod y model a oedd yn cael ei nodi yn yr ymgynghoriad yn dal yn ddarniog ac roeddent yn awgrymu na fyddai hwn yn cyflawni gwelliannau sylweddol a bod angen rhagor o newidiadau er mwyn integreiddio ar draws y system. Ar themâu trawsbynciol, dywedodd tua hanner yr ymatebion fod y system gyfredol yn rhy gymhleth a dywedodd cyfran debyg y dylid integreiddio'r gwasanaeth prawf i’r sector cyhoeddus.

### Gweithio mewn partneriaeth

### C13. Sut y gall darparwyr gwasanaethau prawf sicrhau mynediad effeithiol at yr ystod o wasanaethau adsefydlu sydd eu hangen ar gyfer troseddwyr, a sut all partneriaid lleol allweddol gyfrannu tuag at gyflawni hynny?

> "Byddai model wedi'i gydgomisiynu yn cael gwared â chymhlethdodau ac yn lleihau aneffeithlonrwydd. Mae'n gofyn i'r comisiynwyr perthnasol ddeall eu cyfrifoldebau a chydnabod manteision newid systematig. Annog partneriaid i ddod at ei gilydd a chomisiynu gwasanaethau'n wahanol. Tra byddan nhw'n parhau i feddwl mewn seilos er eu budd eu hunain, bydd y ddarpariaeth yn parhau'n ddarniog ac yn aneffeithlon ond bydd hyn yn galw am arweinyddiaeth gref naill ai gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, PCC neu'r naill a'r llall."

**Ymateb i'r ymgynghoriad, Sefydliad sector preifat**

> “Rydym yn cytuno bod manteision ar gael drwy ragor o gydweithio rhwng yr holl ardaloedd prawf rhanbarthol o ran comisiynu gwasanaethau'n well sy'n gallu cefnogi darparwyr lleol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae elusennau bach lleol yn aml yn fwy arloesol ac ymatebol i newid na sefydliadau mawr ond mae cydlynu nifer o ddarparwyr bach yn anodd ac yn gallu bod yn eithriadol o ddrud. Byddai fframwaith comisiynu y byddai modd ei ddefnyddio i ddod o hyd i ystod ehangach o ymyriadau gan y darparwyr llai hyn yn eu galluogi i hyrwyddo eu gwaith a rhannu ymarfer da.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Dedfrydwr**

Roedd 309 wedi ymateb i'r cwestiwn yma. Dywedodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr fod angen swyddogaethau comisiynu lleol mewn ardaloedd prawf. Roedd y prif themâu yn yr ymatebion yn dweud y dylai'r gwasanaeth prawf ddatblygu gwybodaeth leol sy'n sail i gomisiynu gwasanaethau ar sail anghenion y troseddwyr. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cynigion ar gyfer hyb amlasiantaethol lle roedd y darparwyr yn cael llwyfan i eiriol eu gwasanaethau a chael gwybod am anghenion troseddwyr. Un thema drawsbynciol oedd yr angen i sicrhau cydweithrediad gwell gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol.

**C14. Sut allwn sicrhau bod darparwyr y sector gwirfoddol yn ymgysylltu’n well â dylunio a darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer troseddwyr yn y gymuned?**

> “Defnyddio hybiau cymunedol lle gall darparwyr lleol ddarparu rhwydweithiau cefnogi a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac emosiynol. Sefydlu fforymau partneriaeth lleol a darpariaeth drwy'r-giât."
> **Ymateb i'r Ymgynghoriad, Awdurdod Lleol**

> “Rydym yn croesawu pob cyfle i wneud y trefniadau comisiynu'n fwy lleol, gan gynnwys datganoli penderfyniadau i lywodraethwyr carchardai. Byddem hefyd yn croesawu'r cynnig i sefydlu rhestri o gyflenwyr a ffefrir drwy ddatblygu fframweithiau.”
> **Ymateb i'r Ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

Roedd 303 wedi ymateb i Gwestiwn 14. Roedd y prif themâu a godwyd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer cyflwyno swyddogaeth comisiynu lleol i sicrhau ymgysylltu gwell â sefydliadau'r sector gwirfoddol ynghylch dyluniad y gwasanaethau i droseddwyr. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod angen creu fforymau amlasiantaethol sy'n galluogi sefydliadau i ryngweithio a gweithio mewn partneriaeth o ran adnabod anghenion a darparu gwasanaethau.

**C15: Sut allwn gefnogi mwy o ymgysylltu rhwng PCCau a darparwyr gwasanaethau prawf, yn cynnwys mwy o gydgomisiynu gwasanaethau?**

> “Mae PCCau yn y sefyllfa ddelfrydol i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros gydgomisiynu gwasanaethau mewn modelau lleol wrth symud ymlaen... Fodd bynnag, er mwyn helpu i gydgomisiynu gwasanaethau, mae angen i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i PCCau...”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

> “Os ydy'r Llywodraeth eisiau hybu mwy o gyfraniad gan y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol ac i'r PCCau gydgomisiynu gwasanaethau'n lleol yna, o leiaf, mae angen gosod hyn allan drwy brotocolau cenedlaethol a lleol, gan roi rôl a llais clir i PCCau yn y trefniadau comisiynu sy'n berthnasol i'w hardal a sefydlu mecanwaith ar gyfer gwaith y CRCau (a'r NPS) er mwyn cyd-fynd yn well â chomisiynu lleol ehangach, gan weithio drwy strwythurau partneriaeth ar y lefel leol.”
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Roedd 214 o ymatebion i Gwestiwn 15. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio'n sylweddol. O blith y prif themâu a nodwyd, roedd tua 15% o'r ymatebion yn awgrymu y dylid cael mwy o gyd-gysylltu strategol drwy strwythurau llywodraethu a byrddau lleol. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y gallai darparwyr prawf gyfrannu mwy at Gynlluniau Heddlu a Throseddu PCCau i gefnogi aliniad gwell rhwng blaenoriaethau ac adnabod meysydd sy'n gorgyffwrdd. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebion hefyd yn tynnu sylw at effeithiolrwydd byrddau sydd eisoes ar waith, er enghraifft Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, o ran sicrhau aliniad rhwng partneriaid.

Awgrymodd tua 15% o'r ymatebion y dylid rhannu rhagor o wybodaeth rhwng gwasanaethau prawf a'r PCCau, gyda nifer o'r ymatebwyr yn nodi bod angen i hyn ddigwydd mewn fformat a oedd yn ystyrlon - er enghraifft ar lefel Ardal Heddlu.

Roedd y themâu eraill yn yr ymatebion yn cynnwys awgrymiadau bod angen mwy o eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau rhwng PCCau a gwasanaethau prawf, gydag awgrymiadau y dylid cyd-leoli staff PCC neu heddlu gyda gwasanaethau prawf, neu y dylid datganoli cyllidebau comisiynu i PCCau. Roedd nifer o ymatebion gan gynrychiolwyr PCCau yn nodi'r manteision pan roedd ardaloedd prawf ac ardaloedd PCC yn rhannu ffiniau a bod angen sicrhau bod arweinydd penodol ar gyfer pob rhanbarth.

**C16: Sut allwn ni sicrhau bod trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yng Nghymru yn cynnwys partneriaid allweddol, yn ategu trefniadau presennol ac yn adlewyrchu sgiliau a gallu darparwyr?**

> “Mae heriau unigryw o ran darparu (a chael gafael ar) gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yng Nghymru, gan gynnwys diffyg cyfleusterau ar gyfer rhai grwpiau (ee dim sefydliadau troseddwyr ifanc na charchardai i fenywod sy'n golygu bod troseddwyr yn gorfod gadael y wlad), natur wledig Cymru wrth gymharu â'r DU

> drwyddi draw (mae 34 y cant yn byw mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu â chyfartaledd o 18 y cant yn y DU) ac unigrwydd daearyddol a achosir gan seilwaith a thrafnidiaeth gyfyngedig (amser teithio hir a chyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig)."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Sector gwirfoddol**

Roedd 241 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yng Nghymru i ddod â'r gwaith o reoli troseddwyr o dan un sefydliad, gyda'r ymatebwyr yn awgrymu bod hwn yn adlewyrchu'r dirwedd ddatganoledig a'r trefniadau partneriaeth yng Nghymru. Ar draws yr ymatebwyr, yn gyffredinol roedd y cynigion yn cael eu hystyried fel cam cadarnhaol i wella gwaith integredig a darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy cyson ac effeithiol.

Roedd nifer o'r ymatebion wedi awgrymu bod angen sicrhau bod yr ymgysylltiad â Llywodraeth Cymru yn parhau ar y gwaith o ddatblygu a dylunio a'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau aliniad priodol. Roedd nifer o bartneriaid wedi nodi'r cysylltiadau partneriaeth a'r cydweithio cryf sydd eisoes ar waith yng Nghymru, gan gynnwys trefniadau partneriaeth cyfredol fel y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, ac roeddent yn teimlo y dylai'r cynigion weithio ochr yn ochr â'r rhain ac adeiladu arnynt er mwyn lleihau dyblygu mewn gwasanaethau cyfredol, ac annog partneriaid i ddylunio, datblygu, comisiynu a darparu mewn ffordd integredig.

Roedd cefnogaeth ar gyfer trefniadau cydgomisiynu ar draws partneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol, PCCau a Llywodraeth Cymru. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai prosesau comisiynu cynhwysol ar sail asesiadau o anghenion lleol yn allweddol er mwyn sicrhau na chaiff darparwyr sy'n fwy arbenigol eu cau allan, yn ogystal ag ystyried graddfa contractau yn dyfodol er mwyn caniatáu i sefydliadau llai roi cynnig am y gwaith. Awgrymwyd cyd-leoli gyda phartneriaid pan roedd hynny'n bosibl hefyd gan y byddai hyn yn lleihau costau ystâd ac yn osgoi dyblygu gwasanaethau, yn hyrwyddo cydweithio ac yn darparu lefel o gefnogaeth sy'n fwy cyfannol ar gyfer yr unigolyn.

**C17: Beth ddylai ein mesurau llwyddiant allweddol fod ar gyfer darparwyr gwasanaethau prawf, a sut y gallwn annog y ffocws priodol ar y deilliannau hynny yn effeithiol ac ar ansawdd gwasanaethau?**

> "mae llwyddiant adsefydlu, a gostyngiad mewn aildroseddu o ganlyniad i hynny, yn amlwg yn ddangosydd cryf o effaith gadarnhaol gwaith prawf, ond mae nifer o ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio ar batrymau mewn troseddu."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, dedfrydwr**

> "Dylai mesurau meintiol barhau i gael lle. Mae'r mesurau Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi helpu i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu gweld yn gyflym ar ôl eu dedfryd, eu bod yn cael asesiad risg a chynlluniau dedfrydu o fewn cyfnodau priodol a bod camau gorfodi yn cael eu cymryd yn amserol os bydd amodau'n cael eu torri. Nid mesurau meintiol ydy'r unig ateb, ond ni ddylid tanbrisio eu pwysigrwydd o ran

> gwella'r gwaith o ddarparu dedfrydau a gwella hyder dedfrydwyr a'r cyhoedd. Ochr yn ochr â'r mesurau meintiol, mae angen i ni hefyd gael ffyrdd o asesu ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud."
> **Ymateb i'r ymgynghoriad, Gweithiwr prawf proffesiynol**

Roedd 331 wedi ymateb i Gwestiwn 17. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo mai gostyngiad mewn aildroseddu oedd y mesur llwyddiant pwysicaf i ddarparwyr gwasanaethau prawf, gydag oddeutu hanner yr ymatebwyr yn sôn am bwysigrwydd mesur cynnydd cadarnhaol sy'n ymwneud â llai o aildroseddu, a'r angen am gydweithredu effeithiol gydag asiantaethau eraill i gyflawni hyn. Mae'r prif themâu eraill a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys mesur llwyddiant yn ôl allbynnau yn hytrach na mewnbynnau. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr angen i fesur math, cyfradd a difrifoldeb yr aildroseddu er mwyn adlewyrchu'r cynnydd tuag at ymatal, ac roedd cydnabyddiaeth hefyd o gyfyngiadau mesur aildroseddu.

Roedd Darparwyr a'r sector gwirfoddol yn gefnogol iawn o'r ffocws ar ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac ymyriadau o ansawdd uchel, gyda bron i 40% o'r ymatebwyr yn cyfeirio at yr angen i ddefnyddio dull ansoddol wrth fesur llwyddiant. Roedd hyn yn aml wedi'i gysylltu ag ansawdd yr ymgysylltu â throseddwyr, ac a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac yn barod ac yn fodlon newid.

# Casgliad a'r camau nesaf

108. Byddwn yn dechrau ymgysylltu â'r farchnad ym mis Mai 2019 a byddwn yn dechrau gyda thri digwyddiad lansio rhanbarthol yn Llundain, Manceinion a Chaerdydd i drafod ein model diwygiedig â'r farchnad - gan gynnwys golwg gyffredinol o'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cystadlaethau am Waith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig a'r dull gweithredu ar gyfer y fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau Adsefydlu ac Ailsefydlu. Byddwn wedyn yn parhau i ymgysylltu â'r farchnad wrth ddatblygu'r atebion a'r modelau masnachol dros yr haf a dechrau'r hydref.

109. Bydd manylion y digwyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ymgynghoriad[19] a dylai darparwyr gysylltu â'r blwch post strengthening.probation@justice.gov.uk gydag unrhyw ymholiadau.

19 https://www.gov.uk/government/publications/strengthening-probation-building-confidence-consultation-events-and-materials

# Atodiad A: Rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

**Cyrff Cyhoeddus, Melinau Trafod a Grwpiau Ymgyrchu**

Cymdeithas Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid
BSA – Y Gymdeithas Gwasanaethau Busnes
Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol
Y Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder
Arolygiaeth Prawf EM
Cynghrair Howard
Plaid Cymru
Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr
Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Napo
Cangen Cymru Napo
Cangen SSW Napo
UNSAIN
Cyngres yr Undebau Llafur
Llywodraeth Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

**Awdurdodau Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Swydd Bedford, Northamptonshire, Swydd Caergrawnt a Swydd Hertford
Cyngor Caerdydd
East Riding o Gyngor Swydd Efrog
Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf
Bwrdeistref Bexley Llundain
Bwrdeistref Lewisham Llundain
Bwrdeistref Sutton Llundain
Cyngor Dinas Preston
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Bwrdeistref Brenhinol Greenwich
Cyngor Southwark
Cyngor Bwrdeistref Stockton on Tees
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

APACE
APCC
PCC Avon a Gwlad yr Haf
PCC Swydd Caergrawnt a Peterborough
PCC Swydd Gaer
PCC Dyfnaint, Cernyw ac Ynysoedd Sili
PCC Dorset
PCC Durham Tees Valley
PCCau Dwyrain Canolbarth Lloegr
PCC Essex
PCC Swydd Gaerloyw
PCC Gwent
PCC Hampshire
Maer Llundain - MOPAC
PCC Northants
PCC Northumbria
PCC De Cymru
PCC De Swydd Efrog
PCC Suffolk
PCC Surrey
PCC Sussex
PCC Thames Valley
PPC Swydd Warwig a Gorllewin Mercia
PPC Gorllewin Swydd Efrog

**Sefydliadau sector preifat**

Achieving Real Change in Communities (ARCC)
Amberside Capital Ltd
CRC Durham Tees Valley
Electronic Monitoring Services
Maximus UK
MTCnovo
Peopleplus
Reducing Reoffending Partnership (RRP)
Seetec
Serco Group PLC
Sodexo
VQ Assessment Service Ltd
CRC Cymru
Working Links
CRC WWM

**Sefydliadau dedfrydwyr**

Mainc Ynadon Swydd Bedford
Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi
Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Cymdeithas yr Ynadon
Y Cyngor Dedfrydu

**Sefydliadau sector gwirfoddol a chyrff ymbarél**

Abandofbrothers
Cymdeithas Dai Accord
Achieve North West Connect
Advance
Agenda
Alphapark Accomodation Limited
Blackburn & Darwen District Without Abuse
Changing Lives
Circles UK
Clinks
Community Action Suffolk
Mentrau Cymunedol
Cynghrair Cyfiawnder Troseddol
Yr Ymddiriedolaeth Anabledd
Expectations UK
Fulfilling Lives Project, Blackpool
Fulfilling Lives, Caint, Sussex a Surrey
The Forward Trust
Games for Life (CIC)
Golden Key
Greater Manchester Women's Support Alliance
Hibiscus Initiatives
Humankind (a oedd yn arfer bod yn DISC)
Impact Investment Network
INQUEST
Interserve
Khulisa
Langley House Trust
Lloyds Bank Foundation
Making Every Adult Matter (MEAM)
Nacro
Ymddiriedolaeth Nelson
NEPACS
New Philanthropy Capital

New Professionals, Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf
Canolfan Fenywod Nottingham
Novus
Offploy CIC
Open Road
Grŵp Cefnogi Partneriaid Carcharorion a Theuluoedd (POPS)
Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol Penrose
Cyngor Carchardai
Project Managers for Inspiring Futures through the Arts – Partneriaeth Celfyddydau Swydd Gaerwrangon
Rainbow Services (Harlow)
Revolving Doors Agency
CIC Cydfuddiannol RISE
Partneriaeth Safer Lambeth
Ymddiriedolaeth Shaw
Shelter
Ymddiriedolaeth St Giles
SUIT (Service User Involvement Team)
SOVA
Support Staffordshire
T2A
Trailblazers Mentoring
Third Sector Consortia Management LLP (3SC)
Thirteen Housing Group, Durham Tees Valley
The Traveller Movement
Together for Mental Wellbeing
Voluntary Action North Lincolnshire
Ubique Partnerships Ltd
Unlock – for people with convictions
Cymorth i Ferched Cymru
Why-me?
Women in Prison
YSS

**Cyrff Cyfiawnder Troseddol eraill**

Bwrdd Datblygu Busnes ac Arloesedd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Swydd Efrog
Cwnstabliaeth Swydd Gaer
Yr Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd sy'n gweithredu yn Nyfnaint a Chernyw
Criminal Justice Beds, Herts and Cambs collaboration
Heddlu Swydd Stafford
Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Swydd Efrog

# Atodiad B: Ystyriaethau cydraddoldeb

Gan fod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awdurdod cyhoeddus mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu ei bod yn rhoi ‘sylw dyladwy’ i nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) wrth wneud penderfyniadau ac wrth osod polisïau. Mae’r PSED yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyladwy i’r angen i wneud y canlynol:

- rhoi diwedd ar wahaniaethu yn erbyn pobl ar sail nodweddion gwarchodedig;
- hybu cyfle cyfartal;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl wahanol wrth iddynt gyflawni eu gweithgareddau.

Mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i sicrhau bod effaith newid sefydliadol ar yr holl gyflogeion yr effeithir arnynt yn cael ei hystyried yn ofalus. Mae deall os oes effeithiau penodol ar y rheini sydd â ‘nodweddion gwarchodedig’ gwahanol yn arfer dda ac yn rhan bwysig o gydymffurfio â’r ddyletswydd hon.

Rydym wedi ystyried goblygiadau ein newidiadau i’r gwasanaethau prawf ar gyfer grwpiau gwarchodedig drwy gydol y gwaith o ddatblygu ein cynlluniau. Rydym wedi ystyried yn benodol deall goblygiadau unrhyw newid ar gyfer troseddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth, y rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a’r troseddwyr hynny sy’n debygol o wynebu anfanteision neu wahaniaethu penodol ar sail nodweddion gwarchodedig, fel troseddwyr benywaidd, anabl, Du neu o Leiafrifoedd Ethnig (BAME). Ein nod ydy rhoi cefnogaeth ar gyfer troseddwyr agored i niwed wrth galon y trefniadau newydd.

### Deall beth sydd yn y fantol

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy’n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r grwpiau y mae gwaith prawf yn effeithio arnynt fwyaf. Yn ogystal â defnyddio data meintiol a gwybodaeth o ymchwil ar ‘yr hyn sy’n gweithio’ rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi clywed safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn wedi ein helpu i ddechrau adnabod cohortau agored i niwed penodol y mae angen eu hystyried yn benodol yn y diwygiadau.

Mae ein hymchwil wedi cadarnhau bod rhai bylchau yn y data, rhywbeth roedd rhanddeiliaid wedi sôn amdano ac a oedd yn ganolog i Adolygiad diweddar Lammy o gynrychiolaeth Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y System Cyfiawnder Troseddol. Rydym wedi ymrwymo i fynd i’r afael â hyn. Roedd ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Lammy yn derbyn ei ganfyddiad yn hyn o beth.

Nid oes llawer o fanylion mewn contractau CRC cyfredol am y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer y rheini sydd â statws gwarchodedig o dan y gyfraith. Er enghraifft, dim ond tri gofyniad contract sy'n bodoli sy'n benodol ar gyfer menywod; dylid cynnig goruchwyliwr sy'n fenyw i fenywod; maent yn cael adrodd mewn gofod sydd ar gyfer menywod yn unig; ac ni cheir dim ond un fenyw ar ei phen ei hun mewn grŵp gwaith di-dâl (oni bai eu bod yn fodlon ar hynny). Mae'r Prif Arolygydd, yn benodol, wedi bod yn feirniadol o'r arfer yn y maes yma.

Wrth symud ymlaen, rydym yn ymwybodol o'r angen i bennu safonau clir yn fanylach wrth gontractio gwasanaethau ar gyfer grwpiau agored i niwed i sicrhau bod trin pawb yn gyfartal yn ganolog i'r gwaith o ddarparu. Byddwn yn ceisio dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng pennu safonau'n glir a sicrhau digon o hyblygrwydd er mwyn i arloesedd lleol a rhanbarthol allu ffynnu.

Mae'r paragraffau isod yn crynhoi data allweddol sydd wedi cael ei gyhoeddi ar gynrychioli troseddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn y system brawf pan fydd ansawdd y data yn ddigon da; pan nad yw, defnyddir gwybodaeth am y boblogaeth carchardai fel pwynt cyfeirio. Gall unrhyw newidiadau i'r system brawf felly effeithio'n anghymesur ar rai o'r grwpiau gwarchodedig hyn. Mae'r effeithiau hyn yn gallu bod yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac yn niwtral.

<u>Hil</u>

- Ar 31 Mawrth 2018[20], Roedd carcharorion gwyn yn cynrychioli bron i dri chwarter (60,724 neu 73%) yr holl garcharorion. Roedd carcharorion a oedd yn dweud bod eu hethnigrwydd yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig (BAME) yn cynrychioli 21,992 (neu 26%) o'r holl garcharorion. Roedd ethnigrwydd y 547 arall yn anhysbys neu heb ei gofnodi.
- Ar 31 Mawrth 2018, y grŵp BAME mwyaf o garcharorion oedd Du neu Ddu Brydeinig a oedd yn 10,427 (13%) o'r holl garcharorion. Roedd Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig yn cynrychioli 8% (6,691) o'r boblogaeth carchardai. Y grŵp lleiaf oedd y grŵp ethnig Arall gyda 1,178 o garcharorion (1%).
- Ar gyfer y rheini a oedd yn dechrau goruchwyliaeth gorchymyn Llys yn 2017, roedd 82% o'r rheini a ymatebodd yn Wyn, a thua 17% yn BAME. Nid oedd tua 1% wedi nodi ethnigrwydd.
- Ar gyfer y rheini a oedd yn dechrau goruchwyliaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, roedd 79% yn Wyn, tua 20% yn BAME ac nid oedd 1% wedi nodi ethnigrwydd.
- Yng Nghyfrifiad 2011 roedd 3% o bobl 15 oed neu hŷn a oedd yn Ddu neu'n Ddu Brydeinig a 7% a oedd yn Asiaidd neu'n Asiaidd Brydeinig. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu â phoblogaeth Cyfrifiad 2011 gan fod newidiadau wedi bod yn y boblogaeth gyffredinol ers yr adeg honno (mewnfudo yn benodol). Yn gyffredinol, roedd 12.5% o'r boblogaeth gyffredinol o grwpiau ethnig BAME.

[20] Daw'r data ar gyfer y boblogaeth carchardai ar 31 Mawrth 2018 o'r ystadegau rheoli troseddwyr sy'n cael eu rheoli'n chwarterol ar gyfer 2017 (https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017)

- Mae hyn yn awgrymu bod grwpiau BAME yn cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth carchardai a phrawf wrth gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig y rheini a oedd yn ystyried eu hunain yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig, ac mae'r rheini sydd hefyd o grwpiau Gwyn wedi'u tangynrychioli.

Rhyw

- Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 49% o'r boblogaeth gyffredinol yn ddynion a 51% yn fenywod.
- Mae dynion yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y systemau carchardai a phrawf. Ar 31 Mawrth 2018, roedd dynion yn cynrychioli 95% (79,463) o'r boblogaeth carchardai, ac roedd menywod yn cynrychioli 5% (3,800).
- Yn y system prawf, roedd 107,323 o ddynion (84%) a 20,467 (16%) o fenywod wedi dechrau goruchwyliaeth gorchymyn llys yn 2017.

Anabledd

- Nid ydy'r data sy'n cael ei gasglu am anabledd mewn caethiwed neu yn y system prawf o ansawdd ddigon da i gael ei gyhoeddi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gan gyfran sylweddol o garcharorion broblemau iechyd meddwl, sy'n debyg o gael ei adlewyrchu yn y boblogaeth carchardai, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n cael eu rhyddhau ar drwydded.

Cyfeiriadedd rhywiol

- O blith y rheini a oedd wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol, roedd 97% o'r carcharorion yn dweud eu bod yn Heterorywiol gyda 71,901 o garcharorion, ac roedd 2.6% (1,954) yn dweud eu bod yn Hoyw/ Lesbiaidd/ Deurywiol neu Arall (LGB). O'r carcharorion hynny a ddywedodd eu bod yn LGB, Hoyw/Lesbiaidd oedd y grŵp mwyaf a oedd yn cynrychioli 972 o droseddwyr (1.3%) yn y boblogaeth carchardai ym mis Mawrth 2017 ac roedd 900 (1.2%) yn dweud eu bod yn Ddeurywiol.
- Ar hyn o bryd nid oes gennym ddata sydd o ansawdd digon da ynghylch cyfeiriadedd rhywiol yn y system prawf.
- Yn arolwg blynyddol o boblogaeth 2016[21], roedd 2% o boblogaeth y DU a oedd yn 16 oed neu'n hŷn yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol. Mae'r gyfran yma'n debyg i'r hyn a gofnodwyd mewn poblogaethau carchardai.

Oed

- Yn ôl oed, y grŵp a oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf oedd y rheini rhwng 30-39 gyda 25,218 neu 30% o'r carcharorion ar 31 Mawrth 2018.
- Mae patrymau yn y data cyfredol yn dangos bod y boblogaeth o droseddwyr iau yn disgyn a bod y boblogaeth hŷn (50 oed +) yn cynyddu. Er bod y boblogaeth hŷn yn tueddu i fod yn fwy cydsyniol, bydd y cynnydd yn y boblogaeth yma yn golygu

[21]https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2016

heriau i holl ddarparwyr gwasanaethau prawf i ddatblygu gwasanaethau sy’n ymateb i gyflyrau sy’n ymwneud ag iechyd, gan gynnwys dementia. Mae’r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod oedolion iau yn llai tebygol o gwblhau eu gorchymyn cymunedol / gorchymyn dedfryd ohiriedig, gwaith di-dâl neu raglen achrededig na phobl eraill.

Ailbennu Rhywedd

- Dywedodd 47 o’r 124 o garchardai cyhoeddus a phreifat (38%) yng Nghymru a Lloegr fod ganddynt o leiaf 1 carcharor trawsryweddol[22].
- Roedd 125 o garcharorion trawsryweddol wedi cael eu cofnodi yn adroddiad cydraddoldeb blynyddol NOMS 2016-17 yn 2017, o’i gymharu â 70 o garcharorion trawsryweddol a gofnodwyd yn yr adroddiad 2015-16.
- Mae’r ffigurau’n rhoi amcan o nifer y carcharorion trawsryweddol ac mae’n debyg o fod yn amcangyfrif rhy isel o’r nifer go iawn. Efallai fod rhai carcharorion trawsryweddol nad ydynt wedi datgan eu bod yn drawsryweddol neu a oedd â bwrdd achos trawsryweddol lleol, a rhai nad oedd ganddynt Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.
- Ar hyn o bryd nid ydy ein data yn ddigon da i helpu i gyfrannu at yr effeithiau tebygol ar ailbennu rhywedd troseddwyr cymunedol yn y system prawf.
- Nid ydy data cyfrifiad 2011 yn cynnwys gwybodaeth am gyfran y boblogaeth sy’n drawsryweddol: mae gwaith yn mynd rhagddo i wella’r wybodaeth am hunaniaeth rhywedd[23].

Crefydd neu gred

- Cristionogaeth oedd y cysylltiad crefyddol mwyaf ar gyfer y rheini a gofnododd grefydd, gyda 41,230 o garcharorion yn dweud eu bod yn Gristionogion (48% o’r boblogaeth carchardai). Mae’r gyfran yma wedi disgyn o ryw 52% yn 2007. Yng nghyfrifiad 2011, roedd 59% o’r boblogaeth gyffredinol yn ystyried eu hunain yn Gristionogion, gan awgrymu bod Cristionogion yn cael eu tangynrychioli ychydig yn y boblogaeth carchardai.
- Yr ail grŵp mwyaf oedd y rheini heb unrhyw grefydd gyda 25,711 o garcharorion (31% o’r boblogaeth carchardai), o’i gymharu â 25% o’r boblogaeth gyffredinol wrth gymharu â’r boblogaeth gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu bod y grŵp yma’n cael ei gorgynrychioli yn y boblogaeth carchardai wrth gymharu â’r boblogaeth gyffredinol.
- Roedd cyfran y carcharorion a oedd yn ystyried eu hunain yn Fwslimiaid wedi tyfu’n raddol rhwng 2002 a 2018. Yn 2002, roedd Mwslimiaid yn cynrychioli 7.7% o’r boblogaeth carchardai, ac ar 31 Mawrth 2018 roedd y ffigur hwn yn 15.4%. Mae 5% o’r boblogaeth gyffredinol yn Fwslimiaid, gan awgrymu bod y grŵp hwn yn cael

[22] Mae'r data ar gyfer poblogaeth carchardai ar 31 Mawrth 2018 yn dod o’r *Offender Management Statistics quarterly: October to December 2017* (https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017)

[23]https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/measuringequality/genderidentity/genderidentityupdate

ei orgynrychioli yn y boblogaeth carchardai ac felly mae hefyd yn debygol o gael ei orgynrychioli yn y boblogaeth prawf wrth gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

- Yn 2016/17, cafwyd 96 o geisiadau ar gyfer derbyn i Unedau Mamau a Babis mewn caethiwed. O blith y rhain, cafodd 67 o geisiadau (70%) eu cymeradwyo a chafodd 12 (13%) eu gwrthod. Cafwyd 17 o geisiadau gan fenywod a gafodd eu rhyddhau o gaethiwed neu a dynnodd eu cais yn ôl.
- Ar hyn o bryd nid oes gennym wybodaeth ddibynadwy am feichiogrwydd/mamolaeth mewn gwasanaethau prawf.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

- Ar hyn o bryd nid oes gennym wybodaeth ddibynadwy ar briodas a phartneriaeth sifil mewn carchardai nac yn y gwasanaethau prawf.

**Staff Prawf**

Caiff gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig staff prawf ei hamlinellu isod. Mae ansawdd adroddiadau CRC yn amrywiol, ac mae cyfraddau datgan staff yn yr NPS (ac eithrio oed a rhyw) o dan 60%, felly nid oes modd dadansoddi'r rhain yn fanwl ar hyn o bryd. Gall newidiadau i'r system prawf felly gael mwy o effaith yn anuniongyrchol ar rai grwpiau gwarchodedig na'r hyn bydd gennym dystiolaeth ohono. Mae'r effeithiau hyn yn gallu bod yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Hil

- Mae dan 60% o'r NPS wedi datgan ethnigrwydd, felly ni chaiff hyn ei ddadansoddi na'i gyhoeddi.
- Mae gwybodaeth am ethnigrwydd mewn CRCau yn amrywio o ran ansawdd a chanlyniadau rhwng rhanbarthau. Yn Llundain, mae'r gweithlu'n dangos cynrychiolaeth BAME uwch, gyda bron i 60% yn datgan eu bod yn BAME. Mae rhai â chynrychiolaeth BAME is, er mewn rhai achosion, fel Durham Tees Valley, mae hyn yn adlewyrchu'r boblogaeth leol.

Rhyw

- Yn yr NPS, mae 76% o'r cyflogeion yn fenywod.
- Mae hyn yn debyg yn y CRCau hefyd, gyda menywod yn cynrychioli tua 57% - 75% o'r gweithlu. Mae'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu gan rai darparwyr yn dangos bod menywod hefyd yn cael eu gorgynrychioli ar rai graddfeydd: yn Northumbria roedd yr holl weinyddwyr achos, 23 ohonynt, yn fenwyod a dim ond 18 o'r 90 o swyddogion awdurdodedig oedd yn ddynion. Yn yr un modd, yn Ne Swydd Efrog, o'r 37 o weinyddwyr achos, dim ond 2 sy'n ddynion.

Anabledd

- Mae’r gyfradd datgan ar gyfer anabledd yn yr NPS o dan 60% felly ni phennir bod hynny’n ddigon dibynadwy ar gyfer dadansoddi na chyhoeddi.
- Roedd gwybodaeth am anabledd gan CRCau yn datgan bod anabledd wedi’i dangynrychioli i raddau helaeth mewn staff CRC wrth gymharu â’r boblogaeth gyffredinol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- Mae’r gyfradd datgan ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol yn yr NPS o dan 60% felly ni phennir bod hynny’n ddigon dibynadwy ar gyfer dadansoddi na chyhoeddi.
- Mae'r cyfraddau datgan mewn CRCau hefyd yn gymharol isel.

Crefydd neu Gred

- Mae’r gyfradd datgan ar gyfer crefydd neu gred yn yr NPS o dan 60% felly ni phennir bod hynny’n ddigon dibynadwy ar gyfer dadansoddi na chyhoeddi. Unwaith eto caiff hyn ei adlewyrchu yn yr CRCau.

Oed

- Roedd 14% o staff yr NPS o dan 30 oed, roedd 50% rhwng 30 a 49, ac roedd 35% dros 50 oed.
- Nid ydy'r categorïau data rhwng CRCau yn gyson, sy’n ei gwneud hi’n anodd cymharu’n uniongyrchol.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

- Ar hyn o bryd nid oes gennym wybodaeth ddibynadwy ar briodas a phartneriaeth sifil yn y gweithlu prawf.

**Proses datblygu polisïau – gan ddefnyddio’r ymateb i’r ymgynghoriad**

mae'r cwestiwn o drin pobl yn deg wrth ganol y newidiadau rydym yn eu gwneud. Mae’r diwygiadau rydym yn eu cynnig yn rhoi mwy o ffocws ar gohortau penodol o ddioddefwyr agored i niwed - felly ar ben hynny, rydym wedi cymryd camau i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb drwy'r broses datblygu polisïau, gan ddechrau gyda’r ymgynghoriad cyhoeddus ar drefniadau i'r dyfodol, a gyhoeddwyd yn 2018.

Fel rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus, roeddem wedi gofyn i’r ymatebwyr am eu safbwyntiau ynghylch sut gallwn ni sicrhau bod anghenion a bregusrwydd cohortau gwahanol o droseddwyr yn cael eu diwallu’n well gan wasanaethau prawf (cwestiwn 8). Cawsom 341 o ymatebion a oedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â’n cynlluniau arfaethedig i wella sut rydym yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr agored i niwed. Mae’r ymatebion hyn wedi ychwanegu at ein syniadau ar effaith modelau darparu gwahanol ac wedi rhoi

amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i’r dyfodol, gan bwysleisio ymhellach bwysigrwydd y ffocws yma.

Daeth pum prif bwynt i’r amlwg, sy’n cael eu crynhoi isod:

- Roedd yr ymgynghoriad yn dweud wrthym i sicrhau bod gan bob troseddwr gynllun dedfryd personol a dull gweithredu wedi’i deilwra a’n bod bob amser yn delio ag unigolion, pa bynnag gohort maent yn rhan ohono. Soniodd nifer o ohebwyr ei bod yn rhaid ystyried anghenion troseddegol ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig ac y dylid cyfateb ymyriadau i’r risg.
- Rhaid i ffocws ar gohortau penodol beidio â lliniaru yn erbyn dull gweithredu system gyfan, sy’n datrys problemau. Er bod angen rhai gwasanaethau arbenigol i ymateb i grwpiau amrywiol, mae’r anghenion hynny’n cael eu diwallu orau os ydy’r holl wasanaethau prif ffrwd yn ddigon ymatebol a hyblyg – felly gallai hynny gynnwys apwyntiadau i fenywod yn unig ar rai diwrnodau a chael gweithwyr iechyd meddwl neu’r rheini sydd â gwybodaeth am anawsterau dysgu ac anableddau yn rhan o dimau.
- Mae’r berthynas â’r goruchwyliwr/swyddog prawf yn allweddol. Mae hynny’n galw am amser a hyfforddiant, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus. Yn aml nid ydy'r anghenion yn hysbys pan fydd achosion yn cael eu derbyn. Bydd anghenion amlwg hyd yn oed fel digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, neu drawma mawr o blentyndod er enghraifft, dim ond yn cael eu datgelu os bydd amser a lle i feithrin perthynas.
- Yn aml mae’r mecanwaith darparu gorau y tu allan i’r gwasanaethau prawf a dylid defnyddio mwy ar y sector gwirfoddol. Roedd grwpiau sector gwirfoddol yn benodol yn meddwl na ellid disgwyl i staff prawf ar eu pen eu hunain ddarparu gwasanaethau amrywiol a bod rhaid iddynt ofyn iddyn nhw wneud hynny, yn uniongyrchol, heb fecanwaith darparu cymhleth i’w negodi. Roedd yr un grwpiau’n awgrymu y dylid hyfforddi staff prawf ar gohortau penodol drwy grwpiau cymunedol a oedd yn meddu ar brofiad go iawn o anghenion y cohort dan sylw.
- Yn olaf, clywsom fod llawer eisoes mewn lle ond nad yw’n cael ei ddefnyddio ddigon. Dylid defnyddio llawer mwy o ofynion trin iechyd meddwl a gofynion trin cyffuriau ac alcohol. Roedd defnyddio cefnogaeth cymheiriaid ac ehangu cynlluniau mentora yn effeithiol iawn ac nid oedd yn rhaid iddynt fod yn ddrud. Gallai fod yn weddol rad casglu a chyhoeddi adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a byddai’n rhoi golwg o bethau a dolen adborth bwerus. Yn aml mae angen meithrin cynlluniau lleol a rhoi amser iddynt wreiddio a phrofi eu gwerth.

Dylai’r ffocws ar gohortau agored i niwed o droseddwyr, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, fel rhan o ddatblygiad polisi parhaus, sicrhau bod trefniadau prawf yn y dyfodol yn well na’r trefniadau cyfredol. Er enghraifft, lle mae’r Llywodraeth eisoes wedi gwneud ymrwymiadau i droseddwyr sy’n fenywod neu i droseddwyr BAME (hy

drwy'r Strategaeth Troseddwyr sy’n Fenywod[24] a'r ymateb i Adolygiad Lammy[25]) byddwn yn ceisio cynnwys yr ymrwymiadau yma mewn contractau. Ar gyfer grwpiau eraill, fel y rheini sydd ag anableddau dysgu neu oedolion ifanc sydd ag aeddfedrwydd isel, byddwn yn sefydlu asesiad mwy cyson o’r angen drwy offer asesu iechyd a sgrinio. Ar gyfer troseddwyr cyson iawn, byddwn yn sicrhau buddsoddiad ac ymgysylltiad parhaus mewn cynlluniau rheoli troseddwyr integredig lleol. Yn olaf, byddwn yn darparu gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer troseddwyr o dramor, pan fyddant yn debygol o gael eu rhyddhau i’r DU.

Fel y nodir yn yr Ymateb i’r Ymgynghoriad, bydd ein newidiadau i strwythur y system prawf yn rhoi sylfaen gref ar gyfer ymdrechion i wella'r ddarpariaeth i droseddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth, anableddau, y rheini o grwpiau lleiafrifol ac eraill sydd mewn perygl o ddioddef gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, bydd dod â swyddogaethau rheoli troseddwyr at ei gilydd o dan yr NPS yn sicrhau’r hyblygrwydd er mwyn i hyfforddiant ac ymarfer allu esblygu yn unol â’n dealltwriaeth o’r arfer orau ar gyfer goruchwylio troseddwyr agored i niwed. Bydd creu fframwaith deinamig ar gyfer ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu yn hyrwyddo cyfranogiad cyflenwyr llai sy’n aml yn gallu darparu ar gyfer cohortau penodol o droseddwyr. A bydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth gryfach yn golygu mwy o gefnogaeth gydgysylltiedig i grwpiau sy’n wynebu canlyniadau gwahanol ar draws y system cyfiawnder troseddol

**Hybu ystyriaethau cydraddoldeb mewn llifoedd gwaith yn y dyfodol**

Mae’r newidiadau yn yr ymateb hwn i’r ymgynghoriad yn rhoi sylw i strwythur cyffredinol trefniadau prawf yn y dyfodol. Bydd rhagor o waith yn dechrau nawr i ddatblygu cynlluniau manylach i weithredu, gan gynnwys cyfarwyddyd gweithredol i staff a’r fframwaith masnachol ar gyfer caffael ymyriadau.

Byddwn yn sicrhau bod effaith ein newidiadau ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cael ei hystyried fel blaenoriaeth wrth i’r system newydd siapio. Fel rhan o’r gwaith yma, rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- Casglu, monitro a dadansoddi data’n drwyadl (gan gynnwys argymhellion Adolygiad Lammy i ‘egluro neu ddiwygio’ unrhyw wahaniaeth).

- Strategaeth gweithlu sy’n pwysleisio cydraddoldeb yn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus sy’n cael ei gynnig (gan gynnwys hyfforddiant penodol ar weithio gyda throseddwyr sy’n fenywod) ac sy’n canolbwyntio ar amrywiaeth y gweithlu - gan gynnwys dyheadau a chynlluniau i symud grwpiau a dangynrychiolir i swyddi rheoli ac arwain uwch.

[24] https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

[25] https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report

- Mae dylunio gwasanaethau/ymarfer sy’n gymwys yn ddiwylliannol - gan gynnwys yr ymrwymiad yn Strategaeth Cydraddoldeb HMPPS bod gan bob ymyriad/gwasanaeth newydd ffocws penodol ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad. Yn achos troseddwyr sy’n fenywod, bydd hyn yn golygu bod gwasanaethau’n seiliedig ar rywedd a thrawma, ac wedi cael eu dylunio gan arbenigwyr yn y maes neu drwy ymgynghori â nhw.

- Cadwyn gyflenwi sy’n cynnwys y sector gwirfoddol, cymunedol ac arbenigol lle mae ganddynt brofiad neu arbenigedd mewn darparu gwasanaethau i grwpiau lleiafrifol – yn enwedig pan fyddant yn cael eu goruchwylio yn y gymuned.

- Llywodraethu, arweinyddiaeth a chraffu gwell - gan gynnwys penodi uwch arweinwyr â chyfrifoldeb dros ddileu gwahaniaethau.

Mae’r paragraffau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am yr ymrwymiadau yma.

**Casglu data**

Mae naw o nodweddion gwarchodedig yn dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2011): rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Fel rhan o’r dadansoddiad cydraddoldeb strategol, rydym wedi gweithio gyda’r holl randdeiliaid i ystyried yr effaith ar droseddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd angen i ganlyniadau adolygiadau lleol ystyried yr effaith ar lefel feicro. Ar ben hynny, mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awyddus i gefnogi gofalwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a deall effaith Symudedd Cymdeithasol ac mae wedi ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn.

Mae angen gwella’r data sydd ar gael ar hyn o bryd am nodweddion gwarchodedig, ac mae’ rhan allweddol o’n dull gweithredu newydd o wella perfformiad. Gobeithiwn roi sylw i'r amrywiaeth yn ansawdd y data sy’n cael ei gofnodi gan y CRCau, wrth i ni symud rheoli troseddwyr craidd i’r NPS gan greu swyddogaeth ganolog a ddylai olygu bod data’n cael ei gofnodi’n fwy effeithlon mewn ffurf safonol. Er enghraifft, mae’r NPS wedi datblygu ffurflen casglu data safonol i droseddwyr fel rhan o'r Adroddiad Cyn-dedfrydu.

Rydym hefyd yn awyddus i sefydlu sylfaen dystiolaeth gref ar aildroseddu, er mwyn ein helpu i gael dealltwriaeth well o anghenion y rheini sy’n aildroseddu a’r ffordd orau o weithio gyda nhw. Mae lleihau aildroseddu yn un o nodau craidd y gwasanaeth prawf a’r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac mae hyn wedi cyfrannu at y cynlluniau diweddar i ddiwygio dedfrydau byr. Mae rhai bylchau mawr mewn tystiolaeth ac mae angen rhagor o ymchwil cyn gallu llunio argymhellion penodol i’r rhaglen prawf.

### Strategaeth gweithlu

O ran ein diwygiadau i'r gweithlu, er ein bod yn gwybod ei bod hi'n bosibl i gynllunio'r gweithlu'n fwy effeithiol a fframwaith mwy ffurfiol ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol helpu i hybu cyfle cyfartal - ac yn enwedig gallu symud staff prawf iau yn eu blaenau (cafodd nifer anghymesur o uchel ohonynt eu trosglwyddo i'r CRCau). Rydym hefyd yn gwybod y gallai gorfodi gofynion hyfforddi a fframwaith datblygu proffesiynol effeithio ar staff sy'n gweithio'n rhan amser a/neu sydd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol. Bydd angen i ni adolygu'r data staffio gan CRCau a'r NPS i ddeall union broffil y nodweddion gwarchodedig, ac er ein bod yn dal yn hyderus y bydd manteision datblygiad proffesiynol yn drech nag unrhyw effeithiau niweidiol, bydd angen i ni serch hynny edrych ar fesurau lliniaru ar gyfer y staff a nodir uchod.

Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder nifer o bolisïau cyffredinol ar waith i hyrwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Symudedd Cymdeithasol[26]. Bydd Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystyriaeth allweddol wrth i'r staff gael eu symud i'r NPS, ac rydym yn bwriadu sicrhau y bydd unrhyw newidiadau'n hybu Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan greu gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymdeithas.

Pan fo'n bosibl byddwn yn ymgysylltu ag undebau llafur a staff cyn y broses ffurfiol i gefnogi'r staff yn ystod y broses hon ac rydym eisoes yn cynnal trafodaethau bob pythefnos gydag undebau llafur ac rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch arweinwyr ar draws NPS a CRCau yng Nghyfarfodydd eu Huwch Reolwyr ar faterion sy'n ymwneud â staff a chynllunio.

Bydd dadansoddiad manylach o'r effeithiau ar y gweithlu yn cael ei wneud wrth i gynigion gael eu datblygu ymhellach.

### Dylunio gwasanaethau a thendro contractau

Rydym yn awyddus i ddysgu gan y CRCau, a sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn ganolog i'r model gweithredu newydd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu sicrhau bod y cwestiynau gwerthuso sy'n rhan o'r Gwahoddiad i Dendro yn pwysleisio'r angen i gynigwyr ystyried effeithiau ar gydraddoldeb yn briodol. Rydym wedi cytuno i weithredu meini prawf pasio/methu wrth asesu unrhyw gais, sy'n golygu na all unrhyw gynnig lwyddo oni bai ein bod yn sicr y gall darparwyr ddiwallu eu rhwymedigaethau Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus. Bydd hyn yn mynnu bod unrhyw ddarpar gynigiwr yn disgrifio mewn ffyrdd penodol a mesuradwy sut byddant yn darparu gwasanaethau sy'n dangos dealltwriaeth glir o anghenion lleol troseddwyr a'r dirwedd darparu.

[26] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/683398/moj-social-mobility-action-plan-summary.pdf

Er enghraifft, ar gyfer Gwaith Di-dâl byddwn yn gofyn i’r cynigwyr ddisgrifio sut byddant yn diwallu anghenion troseddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig - yn benodol sut byddant yn dod o hyd i leoliad addas ar gyfer y rheini sydd ag aeddfedrwydd isel, anableddau dysgu neu anawsterau iaith. Ar ben hynny, byddwn yn gofyn sut byddant yn sicrhau bod troseddwyr sy’n fenywod yn cael dewisiadau cyflogaeth lleol (sy’n ystyried cyfrifoldebau gofal plant) nad ydynt yn golygu ei bod yn rhaid iddynt deithio yn rhy hir. Byddwn hefyd yn mynnu na fydd troseddwyr sy’n fenywod yn cael eu gosod mewn amgylchedd gwaith sydd ond â dynion.

**Monitro ac Adolygu**

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiad y dull gweithredu hwn, gan gynnwys dylunio polisïau a gwasanaethau i sicrhau ein bod yn ystyried effaith unrhyw newidiadau neu gynigion ar gydraddoldeb yn llawn. Bydd y datganiad hwn yn cael ei ddiweddaru, pan fydd angen, wrth i’n cynigion gael eu datblygu.

Er mwyn sicrhau bod y maes hwn yn cael ei oruchwylio rydym yn cynnull grŵp cyfeirio o swyddogion polisi, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, arweinwyr dadansoddol ac arbenigwyr ar gydraddoldeb. Bydd y grŵp hwn yn monitro cynnydd ein diwygiadau, gan warantu y bydd ystyriaethau cydraddoldeb wrth galon y dull gweithredu newydd. Bydd y grŵp yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl a mesurau lliniaru i’r perygl o effaith niweidiol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y grŵp hefyd yn gyfrifol am ddarparu cyngor amserol i weinidogion a sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am effeithiau ar gydraddoldeb, wrth i gynigion manwl ar gyfer dylunio a gweithredu gwasanaethau newydd gael eu cyflwyno.

XXXXXXXXXXXXX

XXX-X-XXXX-XXXX-X